

## Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Wardiau Hydref a Gwanwyn, Uned  
Seiciatrig Heddfan, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 07, 08 a 09 Tachwedd 2022

Dyddiad cyhoeddi: 09 Chwefror 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	17
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	28
4. Y camau nesaf .....	32
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	33
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	36
Atodiad C - Cynllun gwella.....	40

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Uned Seiciatrig Heddfan ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda'r nos ar 07 Tachwedd ac ar y diwrnodau canlynol, sef 08 a 09 Tachwedd 2022. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Gwanwyn - sef ward iechyd meddwl â 13 o welyau i oedolion hŷn â salwch organig
- Hydref - ward iechyd meddwl â 13 o welyau i oedolion hŷn â salwch gweithredol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri o Arolygwyr AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol, un adolygydd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac un adolygydd sy'n arbenigwr profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty naill ai'n dda iawn neu'n dda. Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Dangosodd y staff eu bod yn awyddus i wella ansawdd y gwasanaethau a'r gofal a roddir i'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid trwsio'r peiriant golchi llestri sydd wedi torri a'r goleuadau nenfwd diffygiol ar ward Gwanwyn neu osod peiriant a goleuadau newydd yn eu lle er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.
- Rhaid adolygu tymheredd amgylchol y wardiau er mwyn sicrhau bod y staff, y cleifion ac ymwelwyr yn gysurus.
- Dylid tacluso'r ystafelloedd gweithgareddau ar y ddwy ward a'u cynnal a'u cadw i'w defnyddio gan y cleifion a'r staff.
- Rhaid darparu llenni ffenestri yn yr ystafelloedd gwely a llenni yn y cawodydd *ensuite* ar gyfer pob claf er mwyn sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas eu diogelu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn dangos dealltwriaeth dda o'r cleifion yr oeddent yn gofalu amdanynt
- Roedd y staff yn trin y cleifion â charedigrwydd a pharch.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Ar y cyfan, cawsom sicrwydd fod prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn yr ysbyty. Roedd cofnodion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac yn cynnwys tystiolaeth dda bod eiriolwyr yn amlwg yn cael eu

cynnwys yng ngofal y cleifion. Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth y cleifion yn drefnus, yn hawdd eu defnyddio ac yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r anghenion a'r risgiau cyfredol. Fodd bynnag, gwelsom fod ansawdd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn amrywio rhwng y wardiau. Roedd angen rhai gwelliannau mewn perthynas â llywodraethu, cadw cofnodion a rheoli meddyginiaethau. Yn ystod yr arolygiad, roedd yn bryder nodi nad oedd y llyfr gwaith ar gyfer archwiliadau misol o bwyntiau clymu wedi'i gwblhau ers mis Chwefror 2022, a allai beri risg i ddiogelwch y cleifion.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Gwnaethom archwilio cofnodion hyfforddiant y staff, rotas staffio a ffurflenni digwyddiadau. Gwelsom mai cyfradd gydymffurfiaeth y staff ar gyfer hyfforddiant ar Ymyriadau Corfforol Cyfyngol (RPI) oedd 16 y cant ar ward Gwanwyn a 25 y cant ar ward Hydref. Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff nad oeddent wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant RPI neu nad oeddent yn cydymffurfio â'u hyfforddiant mwyach, wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau lle roedd angen atal cleifion yn gorfforol. Felly, ni chawsom sicrwydd bod y staff a'r cleifion yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu'n llawn rhag anafiadau.

At hynny, roedd Polisi Atal yn Gorfforol y bwrdd iechyd wedi dyddio; nodwyd gennym mai dyddiad adolygu'r polisi oedd mis Hydref 2022.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid rhoi strwythur archwilio llywodraethu ffurfiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr ystafelloedd clinig ar y wardiau yn cael eu cadw'n daclus a bod meddyginiaethau wedi yn cael eu storio'n ddiogel.
- Rhaid cynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (siartiau MAR) wedi'u cwblhau'n llawn a bod cydsyniad i driniaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Dylid cwblhau Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn llawn a'u diweddarau yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Rhaid rhoi rhaglen archwilio llywodraethu gadarn ar waith er mwyn sicrhau bod cardiau mynediad a roddir i staff yr ysbyty yn cael eu monitro ac y rhoddir cyfrif amdanynt er mwyn atal achosion o danseilio diogelwch rhag codi a sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.
- Rhaid i'r llyfr gwaith ar gyfer archwiliadau o bwyntiau clymau gael ei gwblhau yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth

- Roedd gofal iechyd corfforol yn cael ei fonitro a'i gofnodi'n briodol ar gyfer y cleifion.
- Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth lle roedd hynny'n briodol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Argymhellodd bron pob un o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC yr ysbyty fel lle i weithio, gan gytuno y byddent yn fodlon ar y safon o ofal a ddarperir i'w ffriandiau neu aelodau o'u teulu. Roedd y tîm arwain yn hawdd mynd ato ac yn cefnogi'r staff ac roedd ganddo ddealltwriaeth dda o anghenion y cleifion. Gwelsom dystiolaeth o drefniadau cydweithio da ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau a lledaenu gwersi a ddysgwyd o achosion a digwyddiadau anffodus difrifol yn gyflym. Nodwyd gennym fod nifer mawr o swyddi gwag ar y ddwy ward ar adeg ein harolygiad. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym nad oedd digon o staff ar y wardiau i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, yn eu barn nhw. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod cynnal lefelau staffio digonol yn her ar y wardiau a'u bod wedi gwneud cais am i nifer mawr o staff asiantaeth gael eu cyflogi er mwyn lleihau'r pwysau ar staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol a darparu goruchwyliaeth lywodraethu gadarn ar gyfer hyn.
- Rhaid adolygu polisiau nad ydynt yn gyfredol mwyach er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau a'u bod yn cefnogi staff yn eu rolau.
- Dylai'r bwrdd iechyd gynnal ymgynghoriadau pellach â'r staff er mwyn trafod ffyrdd o sicrhau bod yr uwch-dîm rheoli yn fwy gweladwy ac yn cyfranogi'n fwy ar y wardiau.
- Dylai'r bwrdd iechyd ganolbwyntio ar recriwtio staff i swyddi parhaol sy'n wag.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom waith tîm da ar y ddwy ward yn ystod ein harolygiad.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau a bod aelodau'r tîm arwain yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol.



## 3 Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

Rhoesom holiaduron AGIC i'r cleifion yn ystod yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Derbyniwyd cyfanswm o wyth holiadur wedi'u cwblhau. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty naill ai'n dda neu'n dda iawn.

#### Cadw'n iach

##### Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom fod pob claf yn cael asesiad iechyd corfforol wrth gael ei dderbyn i'r ysbyty. Ar ôl derbyn unigolion i'r ysbyty, roedd cynlluniau gofal iechyd corfforol yn dogfennu unrhyw ymyriadau hybu ac atal iechyd parhaus a oedd yn ofynnol, fel cymorth dietegydd a mynediad at feddygon teulu.

Wrth gael ein tywys o amgylch y wardiau gyda'r nos, gwelsom fod yr amgylchedd gofal yn lân ac yn daclus, ar y cyfan. Roedd awyrgylch ymlaciedig a phleserus ar y ddwy ward. Roedd cleifion y ddwy ward yn gallu defnyddio eu hystafelloedd wely, y lolfeydd a'r ardaloedd awyr agored. Roedd gan y wardiau amgylchedd therapiwtig pleserus i'r cleifion a oedd yn addas ar gyfer eu hanghenion. Roedd enwau'r cleifion a rhifau'r ystafelloedd mewn ffont mawr, amlwg yn cael eu harddangos y tu allan i ystafelloedd a oedd yn cael eu defnyddio. Roedd y wardiau yn olau ac yn lliwgar ac roedd murluniau ar y waliau. Roedd ardaloedd gardd awyr agored gyda seddi i'r cleifion.

Nodwyd gennym fod gan y wardiau ystafelloedd ymdawelu ac ymlacio i'w defnyddio gan y cleifion ond gwelsom fod yr ystafell ymlacio ar ward Hydref yn flêr. Dywedwyd wrthym na allai'r cleifion eu defnyddio cymaint ag y dylent ei wneud oherwydd pwysau staffio. Rydym yn argymhell y dylai'r ardal hon cael ei thacluso a'i chynnal a'i chadw i'w defnyddio gan y cleifion. Ar ward Gwanwyn, gwelsom fod iard sydd wedi'i chysylltu â'r ystafell dawelu yn llawn tyfiant ac wedi'i hesgeuluso. Rydym yn argymhell y dylai'r ardal hon gael ei glanhau a'i chynnal a'i chadw i'w defnyddio gan y cleifion.

Roedd therapyddion galwedigaethol yn cefnogi'r ddwy ward ac yn ymgymryd â gweithgareddau therapiwtig â'r cleifion. Siaradodd y staff yn gadarnhaol iawn am rôl y Cydgysylltydd Gweithgareddau ar ward Hydref. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw Gydgysylltydd Gweithgareddau ar ward Gwanwyn ond bod ymarfer recriwtio yn mynd rhagddo ar y pryd i lenwi'r swydd. Rydym yn argymhell y dylai'r

bwrdd iechyd roi mesurau cadarn ar waith er mwyn recriwtio Cydgysylltydd Gweithgareddau er budd y cleifion ar ward Gwanwyn.

Roedd yn braf gweld staff yn ymgysylltu â chleifion ac yn cynnal gweithgareddau hamdden ystyrion gyda nhw yn ystod ein harolygiad. Roedd gan y ddwy ward ystafell gweithgareddau i'r cleifion a oedd yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys gemau bwrdd, posau ac offer celf a cherddoriaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod yr ystafelloedd gweithgareddau yn flêr iawn ar y ddwy ward. Dywedwyd wrthym fod yr ystafell gweithgareddau ar ward Hydref yn cael ei defnyddio'n fwy fel ardal storio, yn hytrach nag ar gyfer gweithgareddau i gleifion ac y byddai gweithgareddau i gleifion yn cael eu cynnal fel arfer yn ardaloedd cymunedol y ward yn hytrach nag yn yr ystafell ei hun. Gwelsom fod yr ystafell gweithgareddau yn flêr ac anhrefnus iawn ar ward Gwanwyn a gwelsom gofnodion o gyfarfodydd ward a oedd yn nodi bod y staff yn ymwybodol o'r mater ac yn pryderu yn ei gylch. Rydym yn argymhell y dylid tacluso'r ystafelloedd gweithgareddau ar y ddwy ward a'u cynnal a'u cadw i'w defnyddio gan y cleifion a'r staff.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod digon o gyfleusterau hamdden priodol ar y wardiau a'u bod yn gallu mynd allan er mwyn gwneud ymarfer corff neu gynnal eu llesiant. Dywedwyd wrthym fod ymarfer corff i gleifion wedi'i gyfyngu i weithgarwch grŵp ddwywaith neu deirgwaith yr wythnos. Roedd gerddi'r wardiau yn cael eu defnyddio i ddarparu ardaloedd awyr agored i'r cleifion a rhoi cyfle iddynt wneud ymarfer corff ond roeddent yn fach ac ond yn darparu cyfleoedd cyfyngedig i gerdded. Dywedodd y staff wrthym fod gweithgareddau hamdden i'r cleifion yn cynnwys gweithgareddau ar y wardiau yn bennaf ond bod tripiâu yn cael eu trefnu'n aml hefyd i'r dref i brynu bwyd yn ogystal â thripiâu bws mini achlysurol. Fodd bynnag, oherwydd pwysau staffio, nid oedd yn bosibl mynd ar dripiâu bws mini yn aml.

Gwelsom fod y cyfleusterau cymunedol i'r cleifion mewn cyflwr da ar ward Hydref. Fodd bynnag, gwelsom fod sawl problem cynnal a chadw ar ward Gwanwyn yr oedd angen eu trwsio neu eu hadnewyddu. Roedd switsh arwahanu'r uned gwaredu gwastraff yng nghegin ward Gwanwyn wedi'i orchuddio â dalen o liain cegin a oedd wedi'i selio wrth y switsh â Selotep gyda 'faulty do not use' wedi'i ysgrifennu arni. Trafodwyd y mater hwn â'r staff a ddywedodd fod yr uned wedi torri a bod angen cael gwared arni yn hytrach na'i thrwsio. Gwnaethom argymhell y dylid arddangos arwydd mwy priodol er mwyn tynnu sylw staff at y broblem ac y dylid cael gwared ar yr uned waredu ddiffygiol. Dywedwyd wrthym hefyd fod y peiriant golch llestri ar ward Gwanwyn wedi torri ers dwy flynedd, a oedd yn rhoi gwaith ychwanegol i'r staff glanhau. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y peiriant golchi llestri yn cael ei drwsio neu fod un newydd yn cael ei osod yn ei le er budd y staff a'r cleifion.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, cawsom wybod fod pum golau nenfwd y tu allan i ystafelloedd gwely cleifion nad oeddent yn gweithio ar ward Gwanwyn. Rhaid i'r goleuadau hyn gael eu trwsio er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion ar y ward.

## Gofal ag urddas

### Gofal ag urddas

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom ryngweithio ymrwymedig a llawn parch rhwng y staff a'r cleifion ar y ddwy ward. Roedd y staff yn dangos agwedd ofalgar a chydymdeimladol at y cleifion ac yn cyfathrebu gan ddefnyddio iaith briodol ac effeithiol. Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad fod y staff yn ymatebol, yn gefnogol ac yn barod i helpu. Roedd y staff nysio yn gwybod llawer iawn am y cleifion ac roedd yn amlwg bod cydberthnasau proffesiynol da wedi'u meithrin er mwyn cefnogi iechyd a llesiant y cleifion. Dangosodd y staff eu bod yn awyddus i wella ansawdd y gwasanaethau a'r gofal a roddir i'r cleifion. Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd ein harolwg ar-lein yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu diogelu a bod cleifion yn cael eu hysbysu am benderfyniadau am eu gofal a'u cynnwys ynddynt.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod mesurau ar waith i ddiogelu preifatrwydd cleifion ond bod angen rhai gwelliannau yn y maes hwn. Roedd yn gadarnhaol gweld bod gan bob claf ei gyfleusterau cawod ei hun a oedd yn diogelu preifatrwydd ac urddas. Roedd gofal personol yn cael ei roi i'r cleifion yn eu hystafelloedd ymolchi a'u hystafelloedd gwely ond nid oes llenni cawod wedi'u gosod yn yr ystafelloedd ymolchi *ensuite* i sicrhau preifatrwydd. Gwelsom y gallai hyn amharu ar breifatrwydd ac urddas cleifion petai rhywun yn mynd i mewn i'r ystafell wely pan oedd gofal personol yn cael ei roi iddynt. Rydym yn argymhell bod yn rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu llenni cawod priodol er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu diogelu.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom wybod nad oedd gan rai cleifion lenni ar gyfer eu hystafelloedd a bod cleifion wedi codi'r mater hwn gyda staff yn y gorffennol. Ar ward Gwanwyn sydd wedi'i lleoli ar lawr gwaelod yr ysbyty, gwnaethom gadarnhau bod gan ystafelloedd gwely'r cleifion wydr adlewyrchol a oedd yn eu hatal rhag cael eu gweld o'r tu allan. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd â chleifion ar ward Hydref lle roedd cleifion wedi cwyno am y ffaith eu bod yn credu y gallai pobl weld i mewn i'w hystafell petai golau eu hystafell wely ymlaen. Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu llenni ar gyfer ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu parchu.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu cerdyn allwedd eu hunain ar gyfer eu hystafell pan oeddent wedi setlo ar y ward. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y

cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol. Roedd gan ddrysau ystafelloedd gwely'r cleifion banel gweld a oedd yn galluogi'r staff i arsylwi arnynt o'r coridor heb agor y drws, er mwyn lleihau unrhyw darfu posibl ar gleifion a oedd yn cysgu. Roedd yn gadarnhaol cael gwybod y gallai'r cleifion gau'r paneli gweld o'r tu mewn i'w hystafelloedd pe byddent am wneud hynny. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn cnocio ar eu drws cyn dod i mewn i'w hystafelloedd, sy'n dangos bod y staff yn parchu preifatrwydd cleifion.

Roedd y ddwy ward yn cynnig llety rhywedd cymysg a all fod yn heriol o ran agweddau ar ofal ag urddas. Gwelsom nad oedd unrhyw ardaloedd ar y wardiau a oedd wedi'u neilltuo i ddynion neu ferched yn unig ond roedd arwyddion clir y tu allan i'r ystafelloedd ymolchi yn yr ardaloedd cymunedol yn dangos eu bod ar gyfer dynion neu ferched. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried rhannu'r rhywiau ar y wardiau drwy sicrhau bod mesurau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith, ac y caiff cynlluniau gofal ac asesiadau risg eu cwblhau yn unol â hynny. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y tymheredd amgylchol yn anghyfforddus o boeth ar y ddwy ward. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd blaenorol a oedd yn dangos bod problem barhaus a oedd yn effeithio ar y staff a'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod cleifion wedi dadwisgo ar y wardiau yn y gorffennol oherwydd y tymheredd amgylchol uchel, a oedd wedi tanseilio eu hurddas. Rydym yn argymhell y dylid adolygu tymheredd amgylchol y wardiau er mwyn sicrhau bod y staff, y cleifion ac ymwelwyr yn gysurus.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Gwelsom rai enghreifftiau da o gyfathrebu effeithiol a phersonol rhwng y staff a'r cleifion. Roedd cyfarfodydd trosglwyddo dyddiol yn cael eu cynnal i'r staff nyrsio rannu gwybodaeth am gleifion ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm amlddisgyblaethol am unrhyw bryderon, materion neu ddigwyddiadau a fu yn ystod y diwrnod blaenorol. Gwnaethom fynychu cyfarfodydd Rheoli Gofal Acíwt a Sgrymiau Diogelwch yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff yn deall yr unigolion roeddent yn gofalu amdanynt yn dda, a bod y trafodaethau yn canolbwyntio ar yr hyn a fyddai orau i'r claf.

Roedd y wardiau yn defnyddio technoleg ddigidol fel adnodd i gefnogi cyfathrebu effeithiol drwy gynnal cyfarfodydd Teams ar-lein a thrafodaethau dros y ffôn a chyfnewid negeseuon e-bost er mwyn sicrhau gofal cleifion amserol. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi argymhell y dylid dilyn canllawiau cenedlaethol â chyfyngiadau symud COVID-19 ond bod technoleg ddigidol yn ddull cyfathrebu mwy effeithiol er mwyn rhannu gwybodaeth am ofal cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod hefyd yn defnyddio TEAMS i sicrhau bod cleifion yn cadw mewn cysylltiad ag aelodau o'u teulu a gofalwyr, a oedd yn aml yn ddull mwy priodol a chyfleus i'r grŵp cleifion.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Roedd yn gadarnhaol gweld bod siartiau sefydliadol defnyddiol yn dangos enwau staff ar y ddwy ward er budd y cleifion ac ymwelwyr. Ar ward Gwanwyn roedd hyn yn cynnwys ffotograffau o staff y ward a'u henwau ond, ar ward Hydref, roedd y siart sefydliadol yn cynnwys llai o wybodaeth bersonol. Nid oedd unrhyw ffotograffau o'r staff, dim ond lluniau o wisg staff er mwyn nodi rolau'r staff ar y ward. Rydym yn argymhell y dylai strwythur y siart sefydliadol ar ward Gwanwyn cael ei gopïo ar ward Hydref er gwybodaeth i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Gwelsom fod digon o wybodaeth yn cael ei harddangos ar y wardiau ond nad oedd fawr ddim gwybodaeth i gleifion. Roedd rhywfaint o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos y tu allan i fynedfeydd y wardiau lle na allai cleifion a oedd wedi'u cyfyngu i'r wardiau ei gweld. Roedd rhywfaint o wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos i gleifion ar y wardiau. Gwelsom wybodaeth gynhwysfawr i gleifion am atal cwmpïadau a mynd i'r afael â phroblemau cysgu ond nodwyd gennym fod gwybodaeth am roi'r gorau i smygu yn cael ei harddangos y tu allan i'r wardiau lle na allai'r cleifion ei gweld. Nid oedd unrhyw wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos i gleifion a oedd yn ymwneud â bwyta'n iach, ymarfer corff ac ymwybyddiaeth o alcohol.

Gwelsom fod gwybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau eirioli yn cael ei harddangos ar y wardiau ond nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos am rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Gwelsom fod gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei harddangos ar y wardiau ond nad oedd yn gyfredol.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth berthnasol a chyfredol i'r cleifion ei harddangos yn ardaloedd cymunedol y wardiau, gan gynnwys hybu iechyd, rôl AGIC a gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl.

## **Gofal amserol**

### **Mynediad Amserol**

Roedd y wardiau yn cynnal sgrymiau diogelwch ddwywaith y dydd er mwyn nodi'r lefelau defnydd gwelyau a thrafod anghenion gofal y cleifion. Roedd y staff hefyd yn mynychu cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol rheolaidd lle roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol. Gwelsom fod amrywiaeth o gyfarfodydd a phrosesau a oedd yn anelu at sicrhau gofal effeithiol i'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd wythnosol i drafod cwmpïadau a chyfarfodydd misol rhwng rheolwyr tîm a chyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad misol. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u bod yn derbyn gofal amserol yn unol ag anghenion clinigol.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gynlluniau gofal a thriniaeth saith claf ar y ddwy ward. Yn y cynlluniau gofal a thriniaeth, roedd tystiolaeth o asesiadau risg cynhwysfawr â chyfranogiad timau aml-ddisgyblaethol cefnogol. Roedd ansawdd y broses o gwblhau cynlluniau gofal a thriniaeth yn amrywio rhwng y wardiau ond roedd yn gadarnhaol gweld bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn canolbwyntio ar wella ac adsefydlu cleifion unigol. Roedd yn amlwg bod y cleifion wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu eu cynlluniau gofal a thriniaeth lle bynnag y bo'n bosibl. Gwelsom dystiolaeth o gyfranogiad cleifion, eu cynrychiolwyr a gwasanaethau cymunedol yn y broses cynllunio gofal. Dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd ein holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn sylweddol, neu rywfaint, wrth ddatblygu eu cynllun Gofal a Thriniaeth. Ceir rhagor o ganfyddiadau ar y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

### **Hawliau pobl**

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion unigolion a oedd wedi cael eu cadw yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y ddogfennaeth gyfreithiol a welsom yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac yn dilyn canllawiau Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 2016 (y Cod). Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau ar y ddogfennaeth gyfreithiol yn adran Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yr adroddiad hwn.

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion. Gwelsom fod cyfradd cydymffurfiaeth y staff ar gyfer hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol gorfodol yn 100 y cant ar ward Hydref a 92 y cant ar ward Gwanwyn. Roedd cyfarfodydd ward rheolaidd yn cael eu cynnal i adolygu a thrafod arferion er mwyn lleihau'r cyfyngiadau ar y cleifion yn seiliedig ar risgiau cleifion unigol. Roedd y gofal a roddwyd i'r cleifion yn gyson yn unol â grŵp oedran a gofynion y claf. Roedd gan yr ysbyty bolisiau sefydledig er mwyn helpu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion yn cael eu parchu, a bod eu hawliau dynol yn cael eu cynnal. Roedd addasiadau rhesymol ar waith er mwyn i bawb allu cael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio ar sail gyfartal. Roedd drysau'r brif uned yn agor yn awtomatig ac roeddent yn ddigon llydan i bobl mewn cadair olwyn allu mynd drwyddynt. Roedd lifft ar gael i'w defnyddio i gyrraedd y llawr cyntaf. Roedd teclynnau codi mecanyddol a chyfarpar arbenigol megis cadeiriau olwyn modur ar gael i'w defnyddio gan y cleifion yn ôl yr angen.

Roedd gan y ddwy ward ystafelloedd ymweld er mwyn i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn cysylltu â ffrindiau neu aelodau o'u teulu drwy alwadau ffôn. Roedd trefniadau ar waith i'r cleifion wneud galwadau ffôn yn breifat ac roedd llawer o'r cleifion yn gallu defnyddio eu ffonau symudol eu hunain lle y bo'n briodol. Roedd



ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser ar wahân i'r cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.

Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i'r cleifion a all roi gwybodaeth a chymorth i gleifion o ran unrhyw faterion a allai godi mewn perthynas â'u gofal.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff ar y ddwy ward, lle bynnag y bo'n bosibl, y byddent yn ceisio datrys cwynion ar unwaith a rhannu gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn briodol. Roedd proses ar waith gan y bwrdd iechyd hefyd, yn rhoi cyfle i'r cleifion uwchgyfeirio pryderon drwy weithdrefn gwyno Gweithio i Wella'r bwrdd iechyd. Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd ein harolwg ar-lein yn cytuno bod adborth ar brofiad cleifion yn cael ei gasglu a'u bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion. Roedd hanner y staff a gwblhaodd ein harolwg ar-lein yn cytuno bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn yr ysbyty.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, cawsom wybod bod cyfarfod yn cael ei gynnal bob pythefnos â'r cleifion ar ward Hydref er mwyn trafod materion yn ymwneud â chleifion a chael adborth. Gwelsom gofnodion cyfarfodydd a oedd yn dangos bod y staff yn hysbysu'r cleifion yn rheolaidd am ba gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i faterion a godwyd ar y ward. Gwelsom fod ffurflenni adborth cleifion a blwch awgrymiadau y tu allan i ward Hydref a oedd yn gwahodd adborth gan gleifion ond nad oeddent ar gael i'r cleifion y tu mewn i ardal y ward. Roedd bwrdd arddangos yn dangos canlyniad holiadur cleifion a materion a godwyd gan gleifion, ond dyddiad yr holiadur oedd mis Mehefin 2022. Roedd y bwrdd gwybodaeth yn nodi pryd y byddai'r cyfarfod cleifion nesaf yn cael ei gynnal ond nid oedd unrhyw ddyddiad yn cael ei ddangos ar gyfer y cyfarfod nesaf. Nodwyd gennym fod y cyfarfod blaenorol wedi'i gynnal dair wythnos cyn ein harolygiad.

Er gwaethaf presenoldeb y bwrdd arddangos yn dangos canlyniad yr holiadur cleifion, gwelsom nad oedd unrhyw wybodaeth 'Gweithio i Wella' am y broses o wneud cwyn yn cael ei harddangos ar ward Hydref. Mae hyn yn golygu nad oedd y cleifion yn cael eu cyfeirio'n glir ar y broses gwyno. Rydym yn argymhell y dylai ffurflenni adborth cleifion fod yn hygyrch i gleifion ar y wardiau ac y dylai'r byrddau gwybodaeth i gleifion gael eu diweddaru'n rheolaidd. Rydym hefyd yn argymhell y dylai gwybodaeth 'Gweithio i Wella' gael ei harddangos ar y ward er gwybodaeth i'r cleifion ac i ymwelwyr.

Ar ward Gwanwyn, gwelsom hysbysiadau adborth 'Gweithio i Wella' yn cael eu harddangos lle y gallai'r cleifion eu gweld ond bod y dyddiad ar yr hysbysiadau hyn dros flwyddyn cyn ein harolygiad. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, cawsom wybod nad oedd unrhyw broses ar gyfer cyfarfodydd cleifion ar waith ar ward Gwanwyn i arolygu'r cleifion er mwyn cael adborth ganddynt a sicrhau y gellir

gwella ansawdd. Rydym yn argymhell y dylid rhoi proses ar waith i ymgysylltu â chleifion a gofalwyr er mwyn cael adborth ar eu profiadau ar y ward ac y dylid diweddarau'r bwrdd adborth cleifion yn rheolaidd.



# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal Diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod gan yr ysbyty brosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn yr ysbyty. Roedd y wardiau yn ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig a byddai pob ymwelydd yn mynd i ardal y dderbynfa er mwyn cael mynediad. Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd ei angen. Roedd pwyntiau galw am nyrsys hefyd wedi'u lleoli o amgylch y wardiau ac ym mhob ystafell wely fel y gallai'r cleifion alw am gymorth pe byddai ei angen. Roedd synwryddion yn yr ystafelloedd gwely ar wardiau Gwanwyn a Hydref, a fyddai'n rhybuddio'r staff os oedd claf yn dod allan o'i wely, fel y gallai'r staff roi'r lefel ofynnol o gymorth i'r cleifion. Gwelsom y staff yn ymateb yn brydlon i'r larymau a oedd yn seinio. Dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd arolwg ar-lein wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal maent yn ei roi i'r cleifion.

Rhoddyd sicrwydd i ni fod digon o larymau personol a chardiau mynediad i bob aelod o staff, gan gynnwys staff banc a staff asiantaeth sy'n gweithio ar y wardiau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw broses lywodraethu ar waith i oruchwylio'r dasg o roi cardiau llithro i staff er mwyn sicrhau na fydd cardiau llithro yn cael eu cadw gan staff banc na staff asiantaeth. Rhoddyd sicrwydd i ni nad oedd y cardiau mynediad yn rhoi mynediad i brif ddrws yr ysbyty, ond yn rhoi mynediad i bob rhan o'r wardiau. Heb unrhyw system archwilio ar waith, gallai hyn arwain at achos o danseilio diogelwch a fyddai'n peryglu diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr pe na roddid cyfrif am gardiau mynediad. Gwnaethom fynegi ein pryderon i'r staff am y ffordd roedd diogelwch yn cael ei reoli yn uned Heddfan a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ddiogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr. Dechreuodd uwch-aelodau o staff broses o archwilio cardiau mynediad ar unwaith drwy lunio dalen allgofnodi ar gyfer y cardiau mynediad. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhaglen archwilio llywodraethu gadarn yn cael ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod cardiau mynediad a roddir i staff gan yr ysbyty yn cael eu monitro ac y rhoddir cyfrif amdanynt er mwyn atal achosion o danseilio diogelwch rhag codi a sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â Pholisi Safonau Gwisg y bwrdd iechyd mewn perthynas â gwisgo gemwaith ar y wardiau. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd atgyfnerthu'r polisi hwn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth y staff a diogelu'r staff a'r cleifion.

Nodwyd gennym fod y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau yn yr ysbyty yn ymddangos yn briodol i'r grŵp cleifion. Yn ystod ein harolygiad, roedd yn gadarnhaol gweld bod staff cynnal a chadw yn adolygu'r gosodiadau a'r ffitiadau ar ward Gwanwyn er mwyn dileu risgiau o ran pwyntiau clymu. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y llyfr gwaith ar gyfer archwiliadau misol o bwyntiau clymu wedi'i gwblhau ers mis Chwefror 2022 ac nad oedd y broses ailasesu wedi'i chynnal erbyn y dyddiad disgwylidig, sef mis Mawrth 2022. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau o bwyntiau clymu yn cael eu cwblhau er mwyn sicrhau diogelwch y grŵp cleifion.

Wrth gael ein tywys o amgylch y wardiau gyda'r nos, gwelsom fod teclyn codi wedi'i adael yn y cyntedd cymunedol y tu allan i Ystafell 9 ar ward Hydref. Roedd y teclyn codi yn rhwystr yn y cyntedd cymunedol ac yn peri risg glymu i gleifion. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r staff a chafodd y teclyn codi ei symud a'i storio'n briodol yn ystod yr arolygiad. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y wardiau'n cael eu cadw'n daclus er mwyn sicrhau diogelwch y grŵp cleifion.

#### **Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion ar y ddwy ward a gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael asesiadau corfforol priodol wrth gael eu derbyn, a gwiriadau iechyd corfforol parhaus, gan gynnwys monitro manau pwysu, yn ystod eu harhosiad. Roedd y broses monitro gofal iechyd corfforol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys asesiadau risg Waterlow er mwyn helpu'r staff i asesu'r risg y byddai'r cleifion yn datblygu briwiau pwysu.

#### **Atal cwympiadau**

Gwelsom fod y broses monitro gofal iechyd corfforol ar gyfer y cleifion yn cynnwys monitro'r risg o gwmpo. Gwelsom fod cleifion a oedd yn destun arsylwi gan fod risg y byddent yn cwmpo yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y staff. Roedd cyfarfodydd asesu cwympiadau a chyfarfodydd o'r grŵp adolygu yn cael eu cynnal bob wythnos er mwyn nodi meysydd a oedd yn peri pryder a phwyntiau dysgu o ddigwyddiadau cwmpo er mwyn eu hatal rhag digwydd eto. Siaradodd uwch-aelodau o staff yn frwd am gyfranogiad yr ysbyty mewn prosiect ehangach gan y bwrdd iechyd a oedd yn canolbwyntio ar gwympiadau ymhlith cleifion. Nod y prosiect yw nodi meysydd i'w gwella, rhannu gwersi a ddysgwyd â chydweithwyr a lleihau nifer y cwympiadau 30%. Nododd uwch-aelodau o staff fod cwympiadau yn cael eu rheoli'n dda ar ward Hedfan, ar y cyfan, ond y gellid gwella'r broses o gwblhau gwaith papur a dadfrifio yn y maes hwn a'u bod yn ymgysylltu â staff er mwyn unioni hyn.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr ysbyty. Roedd amrywiaeth o bolisiau cyfredol ar gael a oedd yn nodi'r amrywiol weithdrefnau rheoli heintiau er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau er mwyn cadarnhau bod yr amgylchedd yn lân a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty. Roedd y cyfarpar glanhau yn cael ei storio a'i drefnu'n briodol. Roedd tystiolaeth bod menig a chyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hawdd. Roedd gan y staff wybodaeth dda am atal a rheoli heintiau a gwelsom y wardiau yn cael eu glanhau'n rheolaidd yn ystod ein harolygiad. Roedd yn gadarnhaol nodi bod cyfradd gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn 93% ar ward Hydref a 95% ar ward Gwanwyn. Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gyfer y wardiau yn drefnus ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus a dyna a welsom, ar y cyfan, drwy gydol ein harolygiad. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw a'r staff a gwblhaodd ein harolwg ar-lein yn cytuno bod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith ar y wardiau.

Gwelsom rai problemau o ran atal a rheoli heintiau yn ystod ein harolygiad y gwnaethom dynnu sylw'r staff atynt a chawsant eu datrys yn ystod ein harolygiad. Ar ward Gwanwyn, gwelsom wely yn ystafell yr 'ardal wisgo' a oedd yn rhwystro'r claf rhag defnyddio'r ardal hon ac roedd cynnyrch mislif budr wedi'i adael ar y gwely. Cafodd y gwely a'r cynnyrch mislif eu symud ar ein cais.

Gwelsom gomôd yn yr ystafell ymolchi a rennir ar ward Gwanwyn a theclyn codi mewn ystafell ymolchi arall nad oeddent yn dangos labeli dihalogi yn nodi eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Nodwn fod staff glanhau wedi mynd i mewn i'r ystafell ymolchi ar unwaith ac wedi gwneud yn ardal yn ddiogel drwy lanhau'r ardal a gosod sticer 'I am clean' yn dangos y dyddiad, yr amser a llofnod y staff glanhau. Cadarnhaodd y staff glanhau fod ychydig iawn o oedi wedi bod cyn glanhau'r comôd gan nodi bod yr oedi i'w briodoli i'r amser estynedig a gymerodd i olchi'r llestri ar ôl rhoi brechwast i'r cleifion ar y ward, am fod y peiriant golchi llestri wedi torri ers dwy flynedd. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafelloedd ymolchi'r cleifion yn cael eu glanhau'n brydlon ar ôl iddynt gael eu defnyddio er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.

Yn ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant fynegi pryder mai dim ond rhwng 7.00am a 2.30pm y mae'r glanhawyr domestig yn gweithio ar y wardiau ac, ar ôl hynny, mai'r staff nyrsio sy'n gyfrifol am unrhyw broblemau glanhau domestig. Dywedwyd wrthym fod hyn yn tynnu eu sylw oddi ar eu dyletswyddau nyrsio. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer glanhau'r ward er mwyn sicrhau bod digon o staff glanhau yn gweithio drwy gydol y dydd.

## **Maeth a hydradu**

Roedd y cleifion yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion deietegol unigol ac yn cael deietau a oedd yn cyd-fynd â'u hanghenion meddygol. Gwelsom fod anghenion y cleifion o ran maeth a hydradu yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu. Gwelsom dystiolaeth bod deietegydd yn cael ei gynnwys yn y broses hon a bod staff yn cofnodi cymeriant hylifau a bwyd y cleifion yn briodol. Roedd asesiadau iechyd corfforol cynhwysfawr yn cael eu cynnal gan feddyg y ward wrth dderbyn cleifion i'r wardiau. Roedd tystiolaeth o weithgarwch rheoli a monitro pwysau i'w gweld yn y cynlluniau gofal a thriniaeth cleifion a welwyd gennym.

Roedd y cleifion yn cael bwydlen â dewisiadau ar gyfer pob pryd o fwyd y gallent ddewis ei fwyta yn eu hystafelloedd yn lle'r ystafell fwyta os oeddent am wneud hynny. Roedd diodydd a byrbrydau, gan gynnwys ffrwythau ffres, ar gael drwy gydol y dydd. Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion archebu bwyd ar-lein hefyd, gofyn i berthnasau fynd i siopa ar eu rhan a dod â'r eitemau i mewn i'r wardiau neu fynd gyda'r staff i'r archfarchnad i brynu eitemau o fwyd yn ôl yr angen.

Dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oedd y bwyd yn yr ysbyty o ansawdd da. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno eu bod yn pryderu ynghylch ansawdd y bwyd a bod hon yn broblem barhaus i'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod y bwyd poeth a oedd yn cael ei roi i'r cleifion yn cael ei coginio ymlaen llaw yn y prif ysbyty a'i anfon wedyn i ward Heddfan ar droliâu wedi'u cynhesu i'w roi i'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym fod ansawdd y bwyd a'r ffordd roedd yn cael ei baratoi yn wael, ar y cyfan, am fod y bwyd yn anneniadol ac weithiau wedi'i orgoginio. Roedd y mater wedi cael ei godi sawl gwaith yn y gorffennol ac roedd yn destun cwyn barhaus gan glaf ar adeg ein harolygiad. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd cleifion a oedd yn nodi bod y bwyd o safon isel. Nodwyd gennym fod cyfarfodydd staff wedi'u cynnal â'r adran arlwyo mewn perthynas â'r mater hwn, ond nad oedd y broblem wedi'i datrys eto. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd adolygu ansawdd y bwyd a roddir i gleifion yn yr ysbyty a'r ffordd y caiff ei baratoi er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y cleifion ac yn bodloni eu gofynion deietegol.

## **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom fod polisiau perthnasol, fel Rheoli Meddyginiaethau a Thawelyddu Cyflym, ar gael i'r staff ar ffurf electronig ar gyfrifiaduron ond nad oeddent yn gyfredol. Nodwyd gennym fod Polisi Rheoli Meddyginiaethau'r bwrdd iechyd wedi dirwyn i ben ym mis Gorffennaf 2022 a bod y Polisi Tawelyddu Cyflym wedi dirwyn i ben ym mis Mawrth 2022. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiau nad ydynt yn gyfredol mwyach a sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau a'u hadolygu er mwyn cefnogi staff yn eu rolau.

Yn ystod ein hymweliad â'r ysbyty gyda'r nos, gwnaethom arolygu'r ystafelloedd clinig ar y ddwy ward. Gwelsom fod ystafell y clinig yn drefnus ar ward Gwanwyn ond, ar ward Hydref, roedd y clinig yn flêr ac yn anhrefnus. Gwelsom sawl eli argroenol wedi'u gadael ar yr arwynebau gwaith. Roedd y bin offer miniog yn orlawn ac nid oedd yr oergell cyffuriau a oedd yn cynnwys meddyginiaethau brechu wedi'i chloi. Roedd y gwely triniaeth wedi'i leoli o flaen y troli symudol ('crash trolley') a oedd yn atal mynediad hawdd mewn argyfwng. Gwnaethom drafod ein pryderon â'r staff a dywedwyd wrthym fod archwiliadau clinig dyddiol o ystafell y clinig yn cael eu cwblhau gan y Nyrs â Chyfrifoldeb ond nad oedd unrhyw oruchwyliaeth lywodraethu ychwanegol mewn perthynas â hyn. Yn ystod ein harolygiad, roedd yn gadarnhaol gweld bod y problemau hyn wedi'u datrys drwy sicrhau bod y meddyginiaethau yn cael eu storio'n briodol a bod ystafell y clinig yn cael ei had-drefnu. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafelloedd y clinigau ar y wardiau yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol a bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol bob amser. Rydym hefyd yn argymhell y dylid rhoi strwythur archwilio ffurfiol ar waith mewn perthynas â golwg ystafaloedd clinig y wardiau a'r ffordd y maent wedi'u trefnu.

Ar y cyfan, gwelsom fod staff meddygol a staff nyrsio yn cwblhau siartiau'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth i safon dda. Ni welsom unrhyw enghreifftiau o feddyginiaethau yn cael eu rhagnodi na'u rhoi yn ormodol. Gwelsom arferion a oedd yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o feddyginiaethau yn cael eu rhagnodi a'u bod yn cael eu rhagnodi yn y ffordd leiaf cyfyngol. Roedd adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau yn cael eu cwblhau yn ystod rowndiau wythnosol o'r wardiau ac adolygiadau wythnosol o gleifion er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael cymorth a chyfranogiad da gan staff fferyllol.

Gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu rhoi'n gywir, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau. Fodd bynnag, gwelsom un siart MAR ar ward Hydref lle nad oedd unrhyw lofnod ar gyfer meddyginiaeth ar ddau achlysur ym mis Tachwedd 2022. Gwelsom siart MAR arall lle nad oedd unrhyw lofnod ar y siart MAR ar gyfer meddyginiaeth y depo ond lle roedd llofnod i gadarnhau bod y feddyginiaeth wedi'i rhoi yn y nodiadau ac ar fwrdd gwybodaeth y depo yn ystafell y clinig ar ward Hydref. Gwnaethom dynnu sylw'r staff at y mater hwn yn ystod ein harolygiad a chafodd y siart MAR ei ddiwygio er mwyn cyfleu'r wybodaeth gywir. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau MAR yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan gaiff meddyginiaeth ei rhagnodi a'i rhoi.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn sicrhau bod gan y cleifion gynlluniau rheoli meddyginiaeth unigol a'u bod wedi cael eu cynnwys yn y cynlluniau hyn lle bynnag y bo'n bosibl. Lle roedd eu hangen, roedd ffurflenni cydsynio i driniaeth ar gael wrth ochr siartiau MAR. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth o archwiliadau cydsynio i driniaeth yn cael eu cynnal ar ward Hydref ac rydym yn argymhell y dylid rhoi proses archwilio ar waith mewn perthynas â hyn.

Gwnaethom drafod y system rheoli meddyginiaethau â'r staff ar ward Hydref. Roedd yn galonogol cael gwybod bod Fferyllydd Iechyd Meddwl yn ymweld â'r ward yn rheolaidd er mwyn archwilio siartiau MAR. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod hyn yn canolbwyntio ar ragnodi meddyginiaeth yn hytrach na'i rhoi. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod staff y wardiau yn cynnal archwiliadau dyddiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth prosesau rheoli meddyginiaethau ond nad oedd unrhyw oruchwyliaeth lywodraethu bellach mewn perthynas â hyn.

Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd roi rhaglen o oruchwyliaeth lywodraethu ar waith mewn perthynas â'r system rheoli meddyginiaethau, er mwyn sicrhau bod meysydd lle y ceir diffyg cydymffurfiaeth a meysydd y mae angen eu gwella yn cael yn eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw yn briodol.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**

Roedd polisïau a phrosesau sefydledig y bwrdd iechyd ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion agored i niwed, ac roedd achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol fel y bo'n ofynnol.

Roedd y ddwy ward yn darparu gofal i oedolion yn unig. Roedd y staff yn gallu gweld gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd ar y fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff ar y ddwy ward eu bod yn hyderus bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w defnyddio pe byddai ganddynt bryder diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos eu bod yn gwybod am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu i'r tîm diogelu. Dywedwyd wrthym fod aelodau'r tîm diogelu yn hawdd mynd atynt ac yn hygyrch iawn a bod y tîm wedi ymweld â'r wardiau sawl gwaith er mwyn rhoi cyngor ar ddiogelu i'r staff. Dywedwyd wrthym hefyd fod uwch-aelodau o staff wedi ymweld â'r wardiau er mwyn ymgynghori â staff ar ôl i bryderon gael eu lleisio'n ddiweddar ynghylch chwythu'r chwiban, er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o broses chwythu'r chwiban.

Nodwyd gennym fod y bwrdd iechyd yn goruchwyllo diogelu corfforaethol yn Uned Heddfan yn dda. Gwelsom fod cyfradd gydymffurfiaeth y staff ar gyfer hyfforddiant Diogelu Oedolion yn 100 y cant ar ward Hydref a 97 y cant ar ward Gwanwyn.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwelsom fod cyfarpar dadebru priodol ar gael ar y ddwy ward. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal ar gyfarpar dadebru a chyfarpar brys a gedwir ar y ddwy ward. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd yr archwiliadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac o fewn ei ddyddiad defnyddio. Roedd gwiriadau o dymheredd oergelloedd yn cael eu cwblhau'n briodol ar y ddwy ward.



## **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom edrych ar y systemau a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd system ffeilio bapur sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gawsom yn ystod yr arolygiad fod ymchwiliadau yn cael eu cynnal i ddigwyddiadau a'u bod yn cael eu rheoli'n briodol. Roedd digwyddiadau megis cwympiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn cael eu dogfennu. Roedd proses rheoli ac uwchgyfeirio digwyddiadau ar waith er mwyn sicrhau bod adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Cadarnhaodd y staff fod sesiynau dadfrifio yn cael eu cynnal yn dilyn digwyddiadau a bod gwersi perthnasol a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r staff ar lafar ac yn electronig.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau â'r staff yn yr uned a'r sefydliad yn fwy cyffredinol. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roedd yn galonogol gweld bod y staff yn teimlo'n hyderus i roi gwybod am y materion hyn a'u codi, a oedd yn dangos uniondeb proffesiynol. Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd ein harolwg ar-lein yn cytuno y byddent yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon ynghylch arferion anniogel a bod yr ysbyty yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod staff a oedd yn gysylltiedig â chamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau yn cael eu trin yn deg a bod yr ysbyty yn cymryd camau i sicrhau na fyddai achosion o'r fath yn digwydd eto. Dylai'r bwrdd iechyd annog a chefnogi'r diwylliant hwn o roi gwybod er mwyn sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi wrth gyfrannu at newid, a'u bod yn hyderus i roi gwybod am faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd arolwg AGIC ar-lein yn cytuno eu bod yn gallu bodloni'r holl ofynion croes ar eu hamser yn y gwaith a bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad, a'r rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd ein harolwg ar-lein, nad oedd digon o staff ar y wardiau i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Dywedwyd wrthym fod aelod symudol o staff wedi'i bennu'n flaenorol i oruchwylio'r cleifion yn ardal ddydd y wardiau, ond bod y trefniant hwn wedi dod i ben oherwydd lefelau staffio isel. Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddau achlysur blaenorol pan gafodd claf a oedd yn cael ei fonitro ar sail un i un ei adael heb oruchwyliaeth tra roedd yr aelod o staff a oedd yn ei fonitro yn cynorthwyo mewn argyfyngau ar y wardiau a oedd yn cynnwys cleifion eraill. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff, mewn ymateb i ddigwyddiadau o'r fath, fod y mater wedi'i gofnodi'n briodol a'u bod wedi trafod y mater gyda'r aelodau perthnasol o staff. Hysbyswyd pob aelod o'r staff fod yn rhaid iddynt

ddefnyddio eu larymau personol i alw staff ychwanegol pe bai argyfwng, yn hytrach na gadael claf heb unrhyw un i'w fonitro.

Ar noson ein harolygiad, roedd lefel uchel o aciwtedd cleifion ar y wardiau. Nodwyd gennym fod angen goruchwyliaeth un i un ar bedwar claf ar ward Gwanwyn. Ar ward Hydref, dywedwyd wrthym fod angen goruchwyliaeth un i un ar ddau glaf, yr oedd un ohonynt wedi'i dderbyn i'r uned feddygol i gael triniaeth, a oedd wedi lleihau nifer y staff ar y ward. Gwelsom arsylwadau therapiwtig ar gleifion yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n gywir yn ystod ein harolygiad. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd Polisi Arsyllwadau Therapiwtig y bwrdd iechyd yn gyfredol ac mai'r dyddiad adolygu oedd mis Rhagfyr 2021. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r Polisi Arsyllwadau Therapiwtig er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol ohono a diogelu cleifion.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom nad oedd rhai aelodau o'r staff ar y ddwy ward yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ar Ymyriadau Corfforol Cyfyngol (RPI). Gwnaethom archwilio cofnodion hyfforddiant y staff, rotas staffio a ffurflenni digwyddiadau. Nodwyd gennym fod cofnodion cydymffurfiaeth â hyfforddiant y mwyafrif o'r staff yn cael eu monitro ar y system Cofnodion Staff Electronig (ESR). Fodd bynnag, roedd eu hyfforddiant RPI yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio dull arall ac nid oedd yn rhan o'u sgôr gyffredinol ar gyfer cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar y system ESR. Dywedwyd wrthym y bydd y ffigurau ar gyfer cydymffurfiaeth â hyfforddiant RPI yn symud yn y pen draw i'r system ESR ond nad oedd hynny'n digwydd eto. Pan oedd y ffigurau ar gyfer cydymffurfiaeth â hyfforddiant RPI yn cael eu coladu, roedd yn annerbyniol nodi bod cyfradd gydymffurfiaeth y staff ar gyfer hyfforddiant ar Ymyriadau Corfforol Cyfyngol yn cyfateb i ddim ond 16% ar ward Gwanwyn a 25% ar ward Hydref. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod darparu hyfforddiant RPI i staff wedi bod yn her yn ystod y pandemig ond eu bod bellach yn cynnig sesiynau hyfforddiant rheolaidd i'r staff. Roedd yn bryder nodi nad oedd unrhyw dystiolaeth amlwg o oruchwyliaeth lywodraethu mewn perthynas â chydymffurfiaeth â hyfforddiant RPI. Dywedwyd wrthym fod wyth achos o atal cleifion wedi bod ar y wardiau ers mis Ebrill 2022. Dangoswyd chwe chofnod o hyfforddiant RPI i ni lle roedd aelodau o'r staff nad oeddent wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant RPI neu nad oeddent yn cydymffurfio â'u hyfforddiant mwyach, wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau lle roedd angen atal cleifion yn gorfforol. Gwelsom nad oedd rhai cofnodion atal corfforol ar gael i staff y ward mwyach. Felly, yn ystod ein harolygiad, ni fu'n bosibl nodi a oedd rhagor o achosion o atal cleifion yn gorfforol a oedd yn cynnwys staff heb eu hyfforddi neu staff nad oeddent yn cydymffurfio â hyfforddiant.

Gan fod staff wedi atal cleifion yn gorfforol heb hyfforddiant RPI neu ar ôl i'w hyfforddiant RPI ddirwyn i ben, ni chawsom sicrwydd fod y staff a'r cleifion yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu'n llawn rhag anafiadau. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom



ysgrifennu at y bwrdd iechyd ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwelliannau a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd, yn Atodiad B.

At hynny, nid oedd polisi'r bwrdd iechyd ar ddefnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol yn gyfredol; nodwyd gennym mai dyddiad adolygu'r polisi oedd mis Hydref 2022. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r Polisi ar Ddefnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol er mwyn rhoi gwybodaeth gyfredol i'r staff a sicrhau diogelwch y cleifion.

Roedd yn gadarnhaol nodi, yn ystod ein sgysiau â staff, eu bod yn dangos dealltwriaeth o'r arferion cyfyngol sydd ar gael iddynt yn ogystal â mesurau ataliol priodol a all leihau'r angen i ddefnyddio arferion cyfyngol i ymdrin ag ymddygiad heriol. Gwelsom dystiolaeth o arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio pan fetho popeth arall, gydag effaith a risg therapiwtig yn cael eu monitro'n drwyadl a thactegau gwrthdyniadol ar waith fel dull dad-ddwysáu. Dangosodd y staff fod digwyddiadau lle y bu'n rhaid defnyddio arferion corfforol cyfyngol yn cael eu cofnodi a'u monitro'n briodol drwy gofnodion gofal cleifion unigol, cofnodion RPI a chynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol wedi'u diweddarau.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Yn ystod ein trafodaethau â staff y ward a'r uwch-reolwyr, cawsom lawer o enghreifftiau lle roeddent yn adolygu'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu ar y wardiau ac yn y bwrdd iechyd yn fwy cyffredinol. Lansiodd y bwrdd iechyd Gynllun Achredu Wardiau yn 2018, sy'n ceisio gwella safon ac ansawdd gofal cleifion drwy broses o asesu a gwella perfformiad yn barhaus. Roedd yn gadarnhaol cael gwybod bod ward Hydref wedi cael achrediad arian y bwrdd iechyd am safon y gofal roedd yn ei ddarparu i gleifion tra bod ward Gwanwyn wedi cael achrediad efydd y bwrdd iechyd. Yn ystod ein harchwiliad, gwelsom fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal lle roedd gwybodaeth a gwersi yn cael eu rhannu rhwng y staff. Cawsom wybod fod uwch-staff nyrsio yn cynnal ymweliadau misol er mwyn cerdded o amgylch y wardiau ac adolygu'r amgylchedd a nodi meysydd i'w gwella. Roedd y pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cynnal cyfarfodydd misol er mwyn nodi problemau, pwyntiau dysgu, themâu a thueddiadau.

### **Cadw cofnodion**

Ar y cyfan, gwelsom fod cofnodion papur trefnus yn cael eu cwblhau ar y ddwy ward, a oedd yn hawdd i'w defnyddio gydag adrannau wedi'u nodi'n glir. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod y system cofnodion papur yn peri problemau iddynt o ran y nifer mawr o ddogfennau sydd angen eu cwblhau a'u storio. Dywedwyd wrthym fod y staff weithiau yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen yn y ffeiliau papur am fod gwaith papur yn cwmpo allan o ffolderi ac y gall fod yn anodd darllen ysgrifen aelodau o staff yn y

ffeiliau. Nododd y staff y byddai eu harferion gwaith yn cael eu gwella drwy gyflwyno system cofnodion iechyd electronig a fyddai'n datrys y problemau hyn. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r system cofnodion iechyd bresennol gyda'r bwriad o roi system cofnodion iechyd electronig ar waith yn y dyfodol.

Gwelsom fod cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel mewn cabinet dan glo yn y swyddfa nyrsio ar ward Hydref. Fodd bynnag, ar ward Gwanwyn, roedd drws y swyddfa yn cael ei ddal ar agor â phlocyn ac nad oedd y bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion a oedd yn dangos manylion preifat y cleifion wedi'i orchuddio ac yn weladwy y tu mewn i'r swyddfa. At hynny, nid oedd unrhyw glo ar y cabinet meddygol gwrthdan a oedd yn cynnwys ffeiliau'r cleifion. Roedd yn annerbyniol gweld nad oedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel dan glo ac allan o'r golwg ac y gallai unrhyw un a fyddai'n ymweld â'r uned a'r swyddfa gael gafael ar y wybodaeth hon. Gwnaethom roi gwybod i'r staff am yr achosion hyn o fethu â diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion ac roedd yn galonogol nodi eu bod wedi'u hunioni y bore canlynol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel bob amser er mwyn diogelu cyfrinachedd cleifion.

Gwelsom fod Gweithdrefn Rheoli Cofnodion Cleifion y bwrdd iechyd (gan gynnwys yr amserlen cadw a dinistrio) wedi dirwyn i ben ym mis Awst 2021. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r polisi hwn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth a rhoi canllawiau clir i'r staff.

### **Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

Gwnaethom edrych ar gofnodion pedwar claf a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a gwelsom fod y ddogfennaeth gyfreithiol ar gyfer cadw cleifion o dan y Ddeddf yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon, ac roedd y ddogfennaeth yn ategu hyn. Roedd ffeiliau'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn drefnus, yn hawdd eu darllen ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol. Roedd ffurflenni cydsynio i driniaeth yn cael eu cwblhau a'u ffeilio gyda siartiau MAR. Roedd tystiolaeth dda bod eiriolwyr yn amlwg yn cael eu cynnwys mewn gwaith achos a oedd yn ymwneud â'r cleifion, a thystiolaeth bod Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol ac Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, yn y cofnodion gwelsom ddau fân wall a oedd wedi'u harwyddo â llythrennau cyntaf y meddygon perthnasol ond nad oeddent wedi cael eu llofnodi'n llawn na'u dyddio ganddynt. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwallau yng nghofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n briodol.

## **Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal**

Ochr yn ochr â'n hadolygiad o ddogfennau cadw statudol, gwnaethom ystyried y ffordd roedd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn cael ei gymhwyso. Edrychwyd ar sampl o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth a gwelsom dystiolaeth fod cydgyssylltwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion a bod aelodau o'r teulu yn cael eu cynnwys yn y trefniadau cynllunio gofal, lle y bo'n briodol. Roedd cofnodion y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Ym mhob un o'r cofnodion roedd dystiolaeth o asesiadau risg cynhwysfawr. Roedd cyfranogiad timau amlddisgyblaethol yn amlwg ar y ddwy ward ac roedd gwasanaethau eirioli ar gael i'r cleifion. Gwelsom enghreifftiau o arferion da gan gynnwys dogfen Asesu'r Risg i Gleifion Mewnol sy'n Oedolion y bwrdd iechyd, a oedd yn darparu ystod gynhwysfawr o asesiadau risg er mwyn nodi lefelau'r gofal roedd ei angen ar y ward. Roedd adolygiadau gan dimau amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal bob wythnos er mwyn cynnal adolygiadau mwy ffurfiol o ofal cleifion ac roeddent yn cynnwys asiantaethau allanol yn ôl yr angen. Roedd yn gadarnhaol gweld bod gwaith cynllunio i ryddhau cleifion yn amlwg ar gyfer pob claf a dderbyniwyd i'r ysbyty, a oedd yn dogfennu barn y claf, ei gynrychiolwyr a'r gwasanaethau cymunedol sy'n gyfrifol am ôl-ofal yn glir. Er mwyn ategu cynlluniau gofal y cleifion, roedd amrywiaeth eang o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r gofal a oedd yn cael ei roi i'r cleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Fodd bynnag, gwelsom fod ansawdd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn amrywio rhwng y wardiau. Ar ward Gwanwyn, roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth y cleifion yn cael eu cwblhau'n dda, ar y cyfan, ond ar Ward Hydref, roedd rhai o'r Cynlluniau Gofal a Thriniaeth a welsom yn anghyflawn neu heb fod yn gyfredol. Gwelsom fod y gofal a'r driniaeth a oedd yn cael eu darparu ar y ward yn cael eu harwain gan broses asesu risg yn hytrach nag yn unol â'r Cynlluniau Gofal a Thriniaeth a ragnodwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2010. Rydym yn argymhell y dylai Cynlluniau Gofal a Thriniaeth gael eu cwblhau'n llawn a'u diweddarau'n rheolaidd. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu cwblhau yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Er gwaethaf ansawdd amrywiol y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth, gwelsom dystiolaeth dda o asesiadau risg dynamig ac adolygiadau o gynlluniau gofal mwy penodol a oedd yn ymwneud ag anghenion gofal iechyd corfforol cleifion. Gwelsom arferion rheoli risg therapiwtig a oedd yn llywio ymyriadau gyda chleifion o ddydd i ddydd.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cafwyd cyfanswm o 10 ymateb gan y staff yn y lleoliad.

Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda bron pob ymatebydd yn argymhell yr ysbyty fel lle i weithio ac yn cytuno y byddent yn fodlon ar y safon o ofal a ddarperir i'w ffrindiau neu aelodau o'u teulu. Caiff rhai o ganlyniadau'r holiadur a sylwadau gan aelodau o'r staff eu nodi drwy gydol yr adroddiad.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd yn gadarnhaol gweld gwaith tîm da ar y ddwy ward yn ystod ein harolygiad. Siaradodd y staff y gwnaethom eu cyfweld yn frwd am eu rolau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau a bod aelodau'r tîm arwain yn hawdd mynd atynt. Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd ein harolwg ar-lein yn cytuno bod eu sefydliad yn annog gwaith tîm a bod eu rheolwr llinell uniongyrchol yn gefnogol ac yn barod i'w helpu.

Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif o'r aelodau o staff a gwblhaodd ein harolwg ar-lein wrthym nad oedd yr uwch-dîm rheoli yn weladwy i'r staff ac nad oedd prosesau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt wrthym nad oeddent yn credu bod uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys staff mewn penderfyniadau pwysig. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad eu bod yn teimlo y gellid sicrhau bod uwch-reolwyr yn fwy gweladwy drwy leoli swyddfa Rheolwr y Ward ar y wardiau yn hytrach na'r tu allan iddynt, gyda'r uwch-dîm rheoli yn cynnal mwy o ymweliadau â'r wardiau a bod yn fwy gweladwy. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd gynnal ymgynghoriadau pellach â'r staff er mwyn trafod ffyrdd o sicrhau bod yr uwch-dîm rheoli yn fwy gweladwy ac yn cyfranogi'n fwy ar y wardiau.

Gwelsom fod cyfraddau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant gorfodol yn uchel, ar y cyfan, ar y ddwy ward, sef 97 y cant ar ward Hydref a 95 y cant ar ward Gwanwyn. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnwys y ffigurau isel ar gyfer cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant ar Ymyriadau Corfforol Cyfyngol a oedd yn cael ei chofnodi ar system wahanol ac roedd yn ymddangos bod diffyg llywodraethu mewn perthynas â hyn. Nodwyd gennym fod y gyfradd gydymffurfiaeth â hyfforddiant Resus Lefel 2 a 3 yn gymharol isel ar y wardiau. Y gyfradd gydymffurfiaeth â Hyfforddiant Resus Lefel 2 oedd 84 y cant ar ward Gwanwyn a 70 y cant ar ward Hydref. Y gyfradd cydymffurfiaeth â Hyfforddiant Resus Lefel 3 oedd 76 y cant ar ward Gwanwyn a 66 y cant ar ward Hydref. Trafodwyd y mater hwn â'r staff a ddywedodd wrthym eu bod yn ymwybodol o'r diffyg hwn a bod trefniadau ar

waith er mwyn darparu hyfforddiant i'r staff. Roedd pob aelod o'r staff a gymerodd ran yn ein harolwg ar-lein yn cytuno bod hyfforddiant yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol a rhoi gwell profiad i'r cleifion. Roeddent hefyd yn cytuno bod hyfforddiant yn eu helpu i gadw i fyny â gofynion proffesiynol. Gofynnwyd i'r staff wneud sylwadau ar hyfforddiant a fyddai'n ddefnyddiol iddynt a gwnaethant ddweud wrthym:

*“Hyfforddiant ECG”*

*“Rwy'n agored ac yn barod i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant a ddarperir i mi.”*

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol a'u bod yn cael cymorth i fynd i'r sesiynau hyfforddi. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn cael ei monitro'n rheolaidd gan uwch-reolwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r holl hyfforddiant gorfodol gael ei gofnodi ar un system er mwyn hwyluso gwaith llywodraethu a monitro.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom nad oedd dau o bolisiau'r bwrdd iechyd yn gyfredol, yn ogystal â'r rhai na chyfeiriwyd atynt yn flaenorol yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol - dyddiad adolygu Mawrth 2021
- Polisi ar gyfer Arferion Recriwtio a Dethol Diogel - dyddiad adolygu Mehefin 2019.

Mae'n bwysig bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau a'u hadolygu er mwyn cefnogi staff yn eu rolau. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiau y mae eu dyddiadau adolygu wedi mynd heibio.

## **Y Gweithlu**

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant nodi mai lefelau staffio isel oedd yr her fwyaf o ran gweithio ar y wardiau. Nodwyd gennym fod nifer mawr o swyddi gwag ar y ddwy ward ar adeg ein harolygiad. Roedd swyddi gwag ar gyfer 3.79 nyrs band 5 a 2.92 nyrs band 6 ar ward Hydref. Roedd 3.8 swydd wag ar gyfer nyrsys band 5 ar ward Gwanwyn. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad a'r rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd ein harolwg ar-lein nad oedd digon o staff ar y wardiau i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, yn eu barn nhw.

Dyweddod y staff wrthym:

*“Yn fy marn i, yr unig beth siomedig am y sefydliad yn gyffredinol yw nad yw lefelau staff yn ddigonol weithiau ac, felly, na allwn ddarparu ansawdd y gofal yr hoffem ei ddarparu. Yn ddiweddar cafodd rhai swyddi eu llenwi â staff parhaol. Felly, gobeithio y bydd y sefyllfa hon yn gwella.”*

*“Mae ein gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi ymlâdd yn llwyr. Maent yn aml yn dweud na allant gyflawni tasgau ar amser i bobl oedrannus am y gofynnir iddynt symud wardiau sy'n aml yn gadael y wardiau yn brin o staff gan nad yw wardiau eraill yn cyfrif eu nyrsys ond rydym yn gwneud hynny, ond yn aml rydym yn cael ein gadael mewn sefyllfa lle rydym ei chael hi'n anodd ymdopi, ac mae'n effeithio ar iechyd a llesiant staff yn y gweithle, yn feddylol ac yn gorfforol.”*

Dyweddwyd wrthym fod prinder staff parhaus yn cael ei lenwi gan staff arferol yn gweithio sifftiau goramser yn wirfoddol yn ogystal â staff banc a staff asiantaeth. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod cynnal lefelau staffio digonol yn her ar y wardiau. Dywedwyd wrthym fod problemau staffio yn cael eu trafod yn y sgrym diogelwch a oedd yn cael ei gynnal ddwywaith y dydd yn ogystal ag yng nghyfarfodydd wythnosol y rheolwyr tîm. Dywedodd y staff wrthym fod prosesau recriwtio parhaus ar waith er mwyn recriwtio rhagor o staff parhaol ar y wardiau. Ar adeg ein harolygiad, roedd y bwrdd iechyd wedi defnyddio gwasanaethau cwmni hyrwyddo recriwtio ac roedd yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Wrecsam i recriwtio nyrsys newydd gymhwyso. Roedd cais wedi'i wneud i gyflogi nifer mawr o staff asiantaeth er mwyn lleihau'r problemau staffio fel mesur dros dro. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ganolbwyntio ar recriwtio staff i swyddi parhaol sy'n wag ar y wardiau.

Yn ein harolwg staff ar-lein, gwnaethom ofyn cwestiwn am sut y gallai'r lleoliad wella ei wasanaeth a chawsom yr ymateb canlynol.

*“Mwy o staff er mwyn helpu i ateb y galw, dylai uwch-reolwyr ofalu'n well am y staff a'r cleifion a rhoi llai o sylw i waith papur a chyllidebau. Weithiau nid ydynt am wybod "beth y gallant ei wneud i helpu" ond maent am wybod pam y digwyddodd? Mae cyllidebu yn bwysig ond dylid ei wneud yn unol â'r sefyllfa a'r lle. Nid dim ond un fydd yn talu am bopeth. Nid ein gadael yn brin o staff a thanseilio ein gallu i wneud ein gwaith hyd eithaf ein gwybodaeth, yw'r ateb, am y bydd staff yn danto ac yn gadael y gwaith.”*

Yn ystod ein sgysiau â'r staff, lleisiodd llawer bryderon bod aelodau o staff Wardiau Gwanwyn a Hydref yn cael eu benthyca'n rheolaidd i'r wardiau lechyd

Meddwl Oedolion Acíwt yn Uned Seiciatrig Heddfan a oedd yn eu gadael heb ddigon o staff ac yn cynyddu eu llwyth gwaith. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn peryglu diogelwch cleifion ar y wardiau am eu bod o'r farn nad oedd digon o staff ar ôl i ymdrin ag ymddygiad heriol cleifion na rhoi gofal i'r cleifion ar y wardiau. Gwnaethant nodi nad oeddent yn gallu cymryd eu hegwyliau penodedig yn aml o ganlyniad i hyn, a oedd yn effeithio ar eu perfformiad a'u llesiant. Dywedwyd wrthym hefyd fod staff banc bellach yn amharod i dderbyn sifftiau goramser ar wardiau Gwanwyn a Hydref, am fod achosion wedi bod lle roeddent wedi cytuno i weithio sifftiau ar y wardiau hyn ond, pan wnaethant gyrraedd, eu bod wedi cael eu hanfon yn lle hynny i weithio ar wardiau eraill yn Uned Heddfan lle roedd anghenion y grŵp cleifion yn wahanol, rhywbeth nad oeddent wedi cytuno i'w wneud wrth dderbyn y goramser.

Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau bod uwch-reolwyr yn cyfathrebu'n well â'r staff er mwyn sicrhau bod trefniadau gweithio'r staff yn cael eu rheoli'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau tryloywder ac osgoi dryswch neu ddrwgdybiaeth.



## 3.Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.



# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Gwelsom nad oedd unrhyw broses lywodraethu ar waith i oruchwylio'r broses o roi cardiau llithro i staff er mwyn sicrhau na fydd cardiau llithro yn cael eu cadw gan staff banc na staff asiantaeth. Rhoddwyd sicrwydd i ni nad oedd y cardiau mynediad yn rhoi mynediad i brif ddrws yr ysbyty, ond yn rhoi mynediad i bob rhan o'r wardiau.</p>	<p>Heb unrhyw system archwilio ar waith, gallai hyn arwain at achos o danseilio diogelwch a pheryglu diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr pe na roddid cyfrif am gardiau mynediad.</p>	<p>Gwnaethom fynegi ein pryderon i'r staff am y ffordd roedd diogelwch yn cael ei reoli yn uned Heddfan a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ddiogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.</p>	<p>Dechreuodd uwch-aelodau o staff broses o archwilio cardiau mynediad ar unwaith drwy lunio dalen allgofnodi ar gyfer y cardiau mynediad.</p>

<p>Wrth gael ein tywys o amgylch y wardiau gyda'r nos, gwelsom fod teclyn codi wedi'i adael yn y cyntedd cymunedol y tu allan i ystafell 9 ar ward Hydref.</p>	<p>Roedd y teclyn codi yn rhwystr yn y cyntedd cymunedol ac yn peri risg glymu i gleifion.</p>	<p>Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r staff.</p>	<p>Cafodd y teclyn codi ei symud a'i storio'n briodol yn ystod yr arolygiad.</p>
<p>Ar ward Gwanwyn, gwelsom wely yn ystafell yr 'ardal wisgo' a oedd yn rhwystro'r claf rhag defnyddio'r ardal hon ac roedd cynnyrch mislif budr wedi'i adael ar y gwely.</p>	<p>Roedd y gwely yn rhwystro unigolion rhag cyrraedd y cyfleusterau i gleifion ac roedd y cynnyrch mislif budr yn peri risg bosibl o haint i'r cleifion a'r staff.</p>	<p>Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r staff.</p>	<p>Cafodd y gwely a'r cynnyrch mislif eu symud ar ein cais.</p>
<p>Gwelsom gomôd yn yr ystafell ymolchi a rennir ar ward Gwanwyn a theclyn codi mewn ystafell ymolchi arall nad oeddent yn dangos labeli dihalogi yn nodi eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.</p>	<p>Roedd y rhain yn peri risg bosibl o haint i'r cleifion a'r staff.</p>	<p>Trafodwyd y mater â'r staff ac ymdriniwyd ag ef ar unwaith gan y staff glanhau heb ymyrraeth bellach gan AGIC.</p>	<p>Aeth staff glanhau i mewn i'r ystafell ymolchi ar unwaith a gwneud yn ardal yn ddiogel drwy lanhau'r ardal a gosod sticer 'I am clean' yn dangos y dyddiad, yr amser a llofnod y staff glanhau. Cadarnhaodd y staff glanhau fod ychydig o oedi wedi bod cyn glanhau'r comôd oherwydd cyfrifoldebau eraill ar y ward.</p>
<p>Roedd ystafell y clinig ar ward Hydref yn flêr ac yn ddi-drefn. Gwelsom sawl eli argroenol</p>	<p>Gallai staff gael eu hatal rhag cyrraedd y troli symudol petai argyfwng.</p>	<p>Gwnaethom drafod ein pryderon â'r staff.</p>	<p>Yn ystod ein harolygiad, cafodd y problemau eu datrys drwy sicrhau bod y meddyginiaethau yn cael eu storio'n briodol</p>

<p>wedi'u gadael ar yr arwynebau gwaith. Roedd y bin offer miniog yn orlawn ac nid oedd yr oergell cyffuriau a oedd yn cynnwys meddyginiaethau brechu wedi'i chloi. Roedd y gwely triniaeth wedi'i leoli o flaen y troli symudol ('crash trolley') a oedd yn atal mynediad hawdd mewn argyfwng.</p>	<p>Roedd y bin offer miniog gorlawn yn risg bosibl i iechyd y staff.</p> <p>Gallai pobl heb awdurdod fod wedi cael gafael ar y feddyginiaeth y tu mewn i'r oergell.</p>		<p>a bod ystafell y clinig yn cael ei had-drefnu.</p>
---	---	--	---

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Heddfan - Wardiau Hydref a Gwanwyn

Dyddiad yr arolygiad: 07-09 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:</p> <p>Sicrhau bod pob aelod o'r staff ar wardiau Hydref a Gwanwyn yn cydymffurfio â hyfforddiant ar Ymyriadau Corfforol Cyfyngol</p>		<p>Mae gan yr Is-adran lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) yn ardal Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Wasanaethau Cymorth Clinigol ar gyfer Ymyriadau Cadarnhaol (PICSS) er mwyn goruchwyllo'r trefniadau ar gyfer Ymyriadau Corfforol Cyfyngol.</p>	<p>Arweinydd Gwasanaethau Cymorth Clinigol ar gyfer Ymyriadau Cadarnhaol (Arweinydd PICSS)</p>	<p>Ar waith - 16 11 2022</p>

	Trefnir i staff nyrsio cleifion mewnol ar wardiau Hydref a Gwanwyn nad ydynt wedi cael hyfforddiant ar Ymyriadau Corfforol Cyfyngol eto gael hyfforddiant ar ddyddiadau sydd ar gael	Clinigol Cleifion Mewnol	24 Tachwedd 2022
	Mae rheolwr PICSS wedi adolygu capasiti'r tîm ac mae 4 hyfforddwr ychwanegol wedi'u cyflogi tan fis Medi 2023	Arweinydd PICSS	24 Tachwedd 2022
Rhoi sicrwydd y bydd y staff a'r cleifion wedi'u diogelu'n llawn ar y ddwy ward er mwyn sicrhau mai dim ond staff sy'n cydymffurfio â'u hyfforddiant RPI sy'n atal cleifion yn gorfforol	Sefydlwyd grŵp 'Positive Steps - Reducing Restrictive Practice' er mwyn adolygu cydymffurfiaeth â hyfforddiant, ansawdd ymyriadau atal yn gorfforol ac unrhyw bwyntiau dysgu a nodwyd yn fisol	Arweinydd PICSS	24 Tachwedd 2022
	Rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd drwy'r cyfarfod Gweithio i Wella Isadrannol lleol ac unrhyw faterion a uwchgyfeiriwyd i'r Cyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Isadrannol a'u huwchgyfeirio i'r Grŵp Ansawdd Diogelwch Cleifion (sy'n atebol i'r Pwyllgor/Bwrdd) yn ôl yr angen	Arweinydd PICSS Cyfarwyddwr Nyrsio	15 Rhagfyr 2022

	<p>Mae trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod y cymysgedd sgiliau cywir o staff yn cael ei nodi wrth gwblhau Rotas staffio er mwyn cynnwys staff sydd wedi cael hyfforddiant ar Ymyriadau Corfforol Cyfyngol ac sy'n cario'r galwr ymateb. Caiff hyn ei fonitro a'i gofnodi yn y cyfarfodydd gofal aciwt dyddiol</p>	<p>Rheolwr Gweithrediadau Clinigol i Gleifion Mewnol</p>	<p>24 Tachwedd 2022</p>
	<p>Mae trefniadau arwain a chyfathrebu ar waith er mwyn sicrhau mai dim ond os byddant wedi cael hyfforddiant i wneud hynny y gall staff gyflawni ymyriadau corfforol cyfyngol. Caiff y cam gweithredu hwn ei gefnogi gan sgrymiau diogelwch a sesiynau cerdded o gwmpas gan arweinwyr.</p>	<p>Pennaeth Gweithrediadau</p>	<p>31 Ionawr 2023</p>
<p>Sicrhau y caiff y Polisi Atal yn Gorfforol ei adolygu er mwyn rhoi canllawiau clir i'r staff.</p>	<p>Caiff y Polisi MHLD 0047 Polisi Atal yn Gorfforol ei adolygu a'i ddiweddarau erbyn 25 Tachwedd 2022 gyda dyddiad cymeradwyo disgwylidig, sef mis Ionawr 2023, yn unol â pholisi BIPBC ar y broses Polisi a Gweithdrefnau</p>	<p>Arweinydd PICSS</p>	<p>31 Ionawr 2023</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):** Teresa Owen

**Teitl swydd:** Cyfarwyddwr Gweithredol

**Dyddiad:** 17 Tachwedd 2022

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Heddfan - Wardiau Hydref a Gwanwyn

Dyddiad yr arolygiad: 07-09 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r ystafell dawelu ar ward Hydref gael ei thacluso a'i chynnal a'i chadw i'w defnyddio gan y cleifion.	Diogelu a Gwella lechyd	Tacluso'r ystafell dawelu. Ymgorffori hyn mewn archwiliadau wedi'u dogfennu dyddiol gan reolwyr y ward	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau lechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022
Dylai'r iard sydd wedi'i chysylltu â'r ystafell dawelu ar ward Hydref gael ei glanhau a'i chynnal a'i chadw i'w defnyddio gan y cleifion.	Diogelu a Gwella lechyd	Mae'r ceidwad tŷ wedi arwain darn penodol o waith i dacluso'r ardal hon ar unwaith. Trafodwyd pwysigrwydd cadw'r ardal hon yn daclus ac yn lân â thîm y ward.	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau lechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022
Dylai'r bwrdd iechyd roi mesurau cadarn ar waith er mwyn	Diogelu a Gwella lechyd	Mae cydgysylltydd gweithgareddau wedi'i recriwtio a	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau lechyd	Cwblhawyd.



<b>recriwtio Cydgysylltydd Gweithgareddu i gleifion ar ward Gwanwyn.</b>		dechreuodd yn y swydd ym mis Rhagfyr 2022.	Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	12 Rhagfyr 2022
Dylid tacluso'r ystafelloedd gweithgareddau ar y ddwy ward a'u cynnal a'u cadw i'w defnyddio gan y cleifion a'r staff.	Diogelu a Gwella lechyd	Tacluso'r ystafelloedd gweithgareddau ar Wardiau Hydref a Gwanwyn.  Ymgorffori hyn mewn archwiliadau wedi'u dogfennu dyddiol gan reolwyr y ward	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau lechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	Cwblhawyd.  12 Rhagfyr 2022
<b>Dylid symud yr uned gwaredu gwastraff ddiffygiol yn y gegin ar ward Gwanwyn a chodi arwyddion mwy priodol i dynnu sylw'r staff at y broblem.</b>	Diogelu a Gwella lechyd	Mae pob aelod o'r staff ar y ward yn ymwybodol nad yw'r uned gwaredu gwastraff yn cael ei defnyddio a'i bod wedi cael ei symud.Mae arwydd wedi'i lamineiddio wedi'i godi a gofynnwyd i'r Adran Ystadau ddod i'r uned fel mater o flaenoriaeth.Cwblhaodd yr Adran Ystadau y gwaith.	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau lechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	Cwblhawyd.  16 Rhagfyr 2022
Rhaid atgyweirio'r peiriant golchi llestri neu osod un newydd yn ei le er budd y staff a'r cleifion.	Diogelu a Gwella lechyd	Mae peiriant golchi llestri Ward Gwanwyn wedi cael ei ddanfon a'i osod.	Mary Jones - Rheolwr Cymorth Busnes.	Cwblhawyd.  6 Rhagfyr 2022 a 12 Rhagfyr 2022

		Mae peiriant golchi llestri Ward Hydref wedi cael ei ddanfon a'i osod.	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	
Rhaid trwsio'r pum golau nenfwd diffygiol y tu allan i ystafelloedd gwely cleifion ar ward Gwanwyn er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion ar y ward.	Diogelu a Gwella Iechyd	Cwblhaodd yr Adran Ystadau y gwaith ac mae'r goleuadau yn gweithio.  Ymgorffori hyn mewn archwiliadau wedi'u dogfennu dyddiol gan reolwyr y ward	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	16 Rhagfyr 2022  Cwblhawyd.
<b>Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu llenni cawod priodol yn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu diogelu.</b>	Gofal ag urddas	Bydd Uwch-Dîm Arwain ardal y Dwyrain yn codi'r mater hwn drwy'r Cyfarfod Iechyd a Diogelwch Isadrannol sydd wedi'i drefnu ar gyfer 14 Chwefror 2023.  Fel mesur dros dro, darperir arwydd preifatrwydd i bob claf i'w osod ar ddrysau ystafelloedd ymolchi pan fyddant yn cael eu defnyddio.	Backy Baker - Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau ardal y Dwyrain.	14 Chwefror 2023  Cwblhawyd.
Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu llenni ar gyfer ystafelloedd gwely'r	Gofal ag urddas	Caiff haen farugog ffenestr ('window frosting') dros dro ei	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd	Cwblhawyd.

cleifion er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion.		<p>gosod ar y ffenestri ar y llawr gwaelod.</p> <p>Caiff llenni sy'n lleihau'r risg o glymu eu gosod ym mis Mawrth 2023.</p>	Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	31 Mawrth 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu tymheredd amgylchol y wardiau er mwyn sicrhau bod y staff, y cleifion ac ymwelwyr yn gysurus.	Gofal ag urddas	<p>Ymgorffori hyn mewn archwiliadau wedi'u dogfennu dyddiol gan reolwyr y ward</p> <p>Uwchgyfeirio pryderon drwy'r Sgrym Diogelwch dyddiol os bydd angen cymryd camau.</p> <p>Defnyddio'r Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer tywydd eithafol er mwyn lliniaru unrhyw risgiau i gleifion</p>	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022.
Dylai strwythur y siart sefydliadol ar ward Gwanwyn cael ei gopïo ar ward Hydref er gwybodaeth i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.	Gwybodaeth i gleifion	Mae strwythur y siart sefydliadol ar gyfer ward Hydref ar waith.	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	Cwblhawyd. 5 Ionawr 2023.
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth berthnasol a	Gwybodaeth i gleifion	Archebwyd bwrdd croeso ar gyfer yr ardal gymunedol	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd	31 Mawrth 2023.

<p>chyfredol i'r cleifion ei harddangos yn ardaloedd cymunedol y wardiau, gan gynnwys hybu iechyd, rôl AGIC a gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl.</p>		<p>Cafwyd gafael ar wybodaeth i'w harddangos</p> <p>Yn aros i'r dyddiad gosod gael ei gadarnhau gyda'r Adran Ystadau.</p>	<p>Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol</p> <p>Kelly Arnold - Nyrs Achredu Wardiau MHLA.</p>	
<p>Dylai ffurflenni adborth cleifion fod yn hygyrch i gleifion ar y wardiau a dylai'r byrddau gwybodaeth i gleifion gael eu diweddarau'n rheolaidd.</p>	<p>Gwrando a dysgu o adborth</p>	<p>Mae ffurflenni adborth cleifion wedi'u rhoi ar y wardiau ac yn yr ardaloedd cymunedol.</p> <p>Coladwyd ffurflenni adborth gan PALS.</p> <p>Caiff hyn ei archwilio drwy'r broses achredu wardiau.</p> <p>Caiff gwybodaeth PALS ei harddangos ar fyrddau croeso pan gânt eu gosod.</p>	<p>Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol</p>	<p>Cwblhawyd.</p> <p>10 Tachwedd 2022</p> <p>31 Mawrth 2023.</p>
<p>Dylai gwybodaeth 'Gweithio i Wella' gael ei harddangos ar y wardiau er gwybodaeth i'r cleifion ac ymwelwyr.</p>	<p>Gwrando a dysgu o adborth</p>	<p>Archebwyd bwrdd croeso ar gyfer yr ardal gymunedol</p> <p>Cafwyd gafael ar wybodaeth i'w harddangos</p>	<p>Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol</p>	<p>Cwblhawyd.</p>

		Yn aros i'r dyddiad gosod gael ei gadarnhau gyda'r Adran Ystadau.	Kelly Arnold - Nyrs Achredu Wardiau MHL D.	31 Mawrth 2023.
<b>Dylid rhoi proses ar waith i ymgysylltu â chleifion a gofalwyr ar ward Gwanwyn er mwyn cael adborth ar eu profiadau ar y ward a dylid diweddarau'r bwrdd adborth cleifion yn rheolaidd.</b>	Gwrando a dysgu o adborth	Mae gwasanaethau PALS yn ymweld yn rheolaidd â'r wardiau i gleifion mewnol ac yn casglu adborth gan gleifion a gaiff eu rhannu mewn cyfarfodydd Gweithio i Wella wythnosol a'u rhaeadru i'r gweithlu drwy'r fforwm ansawdd diogelwch a phrofiad. Mae PALS yn cael ei wahodd yn rheolaidd i gyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Lleol ac Isadrannol.	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022.
Rhaid rhoi rhaglen archwilio llywodraethu gadarn ar waith er mwyn sicrhau bod cardiau mynediad a roddir gan yr ysbyty yn cael eu monitro ac y rhoddir cyfrif amdanynt er mwyn atal achosion o danseilio diogelwch rhag codi a sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Rhodddwyd ar waith ar unwaith - rhoddodd y brif dderbynfa ddalen Mewngofnodi ac Allgofnodi ar waith a'r tu allan i oriau y nyrs â chyfrifoldeb ar bob ward sy'n gyfrifol am hyn.  Caiff hyn ei archwilio bob mis gan y Rheolwr Cymorth Busnes a'i gofnodi ar yriant storio MHL D ardal y Dwyrain at ddibenion	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022.

		llywodraethu. Caiff unrhyw faterion a uwchgyfeirir eu cyflwyno yn y Cyfarfod Gweithredol ac Atebolrwydd Lleol.		
<b>Rhaid atgyfnerthu'r Polisi Safonau Gwisg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth y staff a diogelu'r staff a'r cleifion.</b>	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	<p>Rhannwyd y polisi gwisg â rheolwyr y ward i'w ddosbarthu i'r staff a'i drafod â nhw.</p> <p>Caiff y polisi ei ddosbarthu'n flynyddol.</p> <p>Bydd rheolwr y ward yn trafod unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â'r polisi gwisg ar unwaith gyda'r staff.</p>	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	Cwblhawyd. 10 Tachwedd 2022.
<b>Rhaid cwblhau archwiliadau o bwyntiau clymu er mwyn sicrhau diogelwch y grŵp cleifion.</b>	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Caiff Archwiliadau o Bwyntiau Clymu eu cwblhau bob mis ar gyfer pob gwasanaeth i gleifion mewnol a'u cyflwyno i'r cyfarfod Iechyd a Diogelwch lleol a gynhelir bob deufis. Yna, cyflwynir adroddiad arnynt a chânt eu huwchgyfeirio drwy Gyfarfod	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	2 Rhagfyr 2022. Cwblhawyd.

		Ansawdd a Diogelwch Isadrannol MHLD.		
Rhaid cadw'r wardiau yn daclus er mwyn sicrhau diogelwch y grŵp cleifion.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Tacluso'r wardiau.  Archwiliad wedi'i ddogfennu dyddiol o'r amgylchedd wedi'i ymgorffori yn ystod ymweliad dyddiol rheolwyr y wardiau	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	8 Tachwedd 2022  Cwblhawyd.
Rhaid i ystafelloedd ymolchi'r cleifion gael eu glanhau a'u cynnal a'u cadw'n brydlon ar ôl iddynt gael eu defnyddio er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.	Atal a rheoli heintiau	Caiff ystafell pob claf ei glanhau'n ddyddiol gan y gwasanaethau domestig ar bob ward.Mae ceidwaid tŷ a Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn helpu i wneud gwaith glanhau ychwanegol yn ôl yr angen.  Archwiliad wedi'i ddogfennu dyddiol o'r amgylchedd wedi'i ymgorffori yn ystod ymweliad dyddiol rheolwyr y wardiau	Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	8 Tachwedd 2022.  Cwblhawyd.
Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer glanhau'r wardiau er mwyn sicrhau bod digon o staff glanhau yn gweithio drwy gydol y dydd.	Atal a rheoli heintiau	Mae staff domestig yn bresennol drwy gydol y dydd ar gyfer pob ward (rhwng 8am ac 8pm, 7 diwrnod yr wythnos).	Joanne Kendrick - Pennaeth Nyrsio ardal y Dwyrain	8 Tachwedd 2022.  Cwblhawyd.



		<p>Mae rheolwr y ward yn asesu glendid yr amgylchedd yn ystod archwiliad dyddiol wedi'i ddogfennu rheolwr y ward.</p> <p>Cyflwynir adroddiadau Glanhau Care 4 i gyfarfod misol Uwch-dîm Arwain ardal y Dwyrain gan Bennaeth Gwasanaethau Gwesty. Caiff unrhyw fylchau yn y gwaith glanhau eu huwchgyfeirio at y Pennaeth Gwasanaethau Gwesty gan y Pennaeth Nyrsio.</p>		
<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ansawdd y bwyd a roddir i gleifion yn yr ysbyty a'r ffordd y caiff ei baratoi er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y cleifion ac yn bodloni eu gofynion deietegol.</p>	<p>Maeth a hydradu</p>	<p>Bydd Uwch-dîm Arwain ardal y Dwyrain yn cysylltu â'r adran arlwygo er mwyn adolygu'r fwydlen bresennol.</p> <p>Gwahoddiad i'r Tîm Profiad y Claf gael ei gynnwys yn yr adolygiad</p>	<p>Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol</p>	<p>1 Chwefror 2023.</p>
<p><b>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r Polisi Rheoli Meddyginiaethau a wnaeth ddirwyn i ben ym mis Gorffennaf 2022 a'r Polisi Tawelyddu Cyflym a wnaeth</b></p>	<p>Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Tawelyddu Cyflym MM54 - Mae'r polisi diwygiedig wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad 4 wythnos safonol. I'w drafod yng nghyfarfod</p>	<p>Cadeirydd y Grŵp Polisiâu Isadrannol - Sarah McGarrity</p>	<p>31 Mawrth 2023</p>

ddirwyn i ben ym mis Mawrth 2022.		y Grŵp Polisiau Isadrannol 14.03.2022  Rheoli Meddyginiaethau MM01 - Ymgwymerwyd â diweddariadau Ad Hoc yn 2022 mewn ymateb i ddigwyddiadau a materion yn codi. Bwriedir cynnal adolygiad llawn yn 2023 wedi'i ategu gan grŵp gorchwyl a gorffen adolygu.	Swyddog Diogelwch Meddyginiaeth - Llywodraethu Fferylliaeth Judith Green.	30 Mehefin 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafelloedd y clinigau ar y wardiau yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol a bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol bob amser.	Rheoli meddyginiaethau	Ymgorffori dulliau storio meddyginiaeth priodol yn archwiliad dyddiol wedi'i ddogfennu rheolwr y ward o'r amgylchedd.  Rhestr wirio ddyddiol safonedig rheolwr y ward ar gyfer yr amgylchedd yn mynd drwy'r broses gymeradwyo cyn iddi gael ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau cysondeb rhwng pob rhan o'r is-adran	Kelly Arnold - Nyrs Achredu Wardiau MHL D.  Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol	8 Tachwedd 2022.  Cwblhawyd.  28 Chwefror 2023
Dylid rhoi strwythur archwilio ffurfiol ar waith mewn perthynas â	Rheoli meddyginiaethau	Caiff clinigau'r wardiau eu hasesu yn ystod archwiliad dyddiol wedi'i	Kelly Arnold - Nyrs Achredu Wardiau MHL D.	Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022.

<p>golwg ystafelloedd clinig y wardiau a'r ffordd y maent wedi'u trefnu.</p>		<p>ddogfennu rheolwr y ward o'r amgylchedd.</p> <p>Caiff clinigau'r wardiau eu harchwilio drwy'r broses achredu wardiau. Mae hyn yn darparu archwiliad annibynnol yn erbyn safonau achredu wardiau. Caiff y canlyniad ei gynnwys yn adroddiad achredu wardiau ehangach BIPBC.</p>	<p>Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol</p>	
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau MAR yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan gaiff meddyginiaeth ei rhagnodi a'i rhoi.</p>	<p>Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Atgoffa pob nyrs gofrestrdig o'i chyfrifoldebau o dan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau.</p> <p>Mae pob Nyrs Gofrestredig â Chyfrifoldeb yn edrych ar siartiau rhagnodi cyn cwblhau sifft.</p> <p>Caiff unrhyw themâu neu achosion parhaus o ddiffyg cydymffurfiaeth eu rheoli drwy'r polisi rheoli meddyginiaethau.</p>	<p>Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol</p>	<p>Cwblhawyd. 10 Tachwedd 2022</p>

<p>Dylai'r bwrdd iechyd roi proses archwilio ar waith mewn perthynas â ffurflenni cydsynio i driniaeth.</p>	<p>Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Mae archwiliadau cydsynio i driniaeth wedi'u cynnwys yn y cylch archwilio sy'n cael ei fonitro gan y Pennaeth Nyrsio a chânt eu trafod drwy'r cyfarfod Gweithio i Wella wythnosol a'u bwydo'n ôl drwy'r cyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad misol.</p>	<p>Joanne Kendrick - Pennaeth Nyrsio ardal y Dwyrain</p>	<p>Cwblhawyd. 3 Ionawr 2023</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd roi rhaglen o oruchwyliaeth lywodraethu ar waith mewn perthynas â'r system rheoli meddyginiaethau, er mwyn sicrhau bod archwiliadau dyddiol, meysydd lle y ceir diffyg cydymffurfiaeth a meysydd y mae angen eu gwella yn cael yn eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw yn briodol.</p>	<p>Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Mae pob Nyrs Gofrestredig â Chyfrifoldeb yn edrych ar siartiau rhagnodi cyn cwblhau sifft.</p> <p>Rhoddir gwybod i Datix am unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r polisi/proses rheoli meddyginiaethau a chânt eu hadolygu yn y cyfarfod Gweithio i Wella wythnosol a'r cyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad misol.</p> <p>Caiff themâu neu achosion parhaus o ddiffyg cydymffurfiaeth eu rheoli drwy'r polisi rheoli meddyginiaethau.</p>	<p>Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol</p>	<p>Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022</p>

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r Polisi Arsylwadau Therapiwtig a wnaeth ddirwyn i ben ym mis Rhagfyr 2021 er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol ohono a diogelu cleifion.</p>	<p>Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Ar gam olaf y broses gadarnhau drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.</p>	<p>Cadeirydd y Grŵp Polisiâu Isadrannol Sarah McGarrity</p>	<p>31 Mawrth 2023</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r system cofnodion iechyd bresennol gyda'r bwriad o roi system cofnodion iechyd electronig ar waith yn y dyfodol.</p>	<p>Cadw cofnodion</p>	<p>System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yw'r cofnod cleifion electronig ar gyfer iechyd meddwl cleifion mewnol. Mae cynllun peilot wedi dechrau ar Ynys Môn i gleifion nad ydynt yn gleifion iechyd meddwl a chaiff y dyddiadau ar gyfer cyflwyno'r cynllun yn llawn eu cytuno yn ystod Chw1 2023/24 yn amodol ar werthusiad.</p>	<p>Pennaeth Gwybodeg, Rhaglenni, Sicrwydd a Gwella - Andrea Williams</p>	<p>31 Mawrth 2024</p>
<p>Rhaid i gofnodion cleifion gael eu storio'n ddiogel bob amser er mwyn diogelu cyfrinachedd cleifion.</p>	<p>Cadw cofnodion</p>	<p>Cabinet ar ward Gwanwyn sydd â chlo wedi torri - aethpwyd i'r afael â'r broblem hon ar unwaith ac fe'i datryswyd.</p> <p>Cynnwys storio nodiadau cleifion yn ddiogel ar restr wirio</p>	<p>Kelly Griffiths - Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i Gleifion Mewnol</p>	<p>Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022</p>

		amgylcheddol ddyddiol rheolwr y ward.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r Weithdrefn Rheoli Cofnodion Cleifion (gan gynnwys yr amserlen cadw a dinistrïo) a wnaeth ddirwyn i ben ym mis Awst 2021, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth a rhoi canllawiau clir i'r staff.	Cadw cofnodion	Gweithdrefn Rheoli Cofnodion Cleifion HR1 ac Amserlen Cadw a Dinistrïo Cofnodion Cleifion HR1A, adolygu a diweddarau'r polisïau. Disgwylir iddynt gael eu cymeradwyo'n ffurfiol cyn eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2023.	Dirprwy Bennaeth Dros Dro Cofnodion Cleifion - Angharad Wiggin	28 Chwefror 2023
Rhaid i wallau yng nghofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl gael eu llofnodi a'u dyddio'n briodol.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Gohebiaeth Rheolwr Deddf Iechyd Meddwl BIPBC at Dimau'r Ddeddf Iechyd Meddwl parthed cywiriadau "Diwygio, Llofnodi â Llythrennau Cyntaf a Dyddio".	Wendy Lappin, Rheolwr Deddfwriaeth y Deddf Iechyd Meddwl	Cwblhawyd 9 Tachwedd 2022.
Dylid cwblhau Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn llawn a'u diweddarau'n rheolaidd.	Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio darparu gofal a	Caiff hyn ei fonitro gan reolwyr y wardiau a gweithwyr allweddol a'i adolygu bob wythnos gan y rheolwyr gwasanaeth a'i gyflwyno i'r cyfarfod Atebolrwydd gweithredol wythnosol a fynychir gan bob aelod o'r uwch-dîm arwain ac a gadeirir gan Bennaeth Gweithrediadau.	Becky Baker - Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau ardal y Dwyrain.	Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022.

<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu cwblhau yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.</p>	<p>Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal</p>	<p>Caiff hyn ei fonitro bob wythnos gan Uwch-dîm Arwain ardal y Dwyrain a chyflwynir adroddiad arno i'r cyfarfod Atebolrwydd gweithredol wythnosol a gadeirir gan y Pennaeth Gweithrediadau.</p> <p>Cyflwynir adroddiad ar gydymffurfiaeth â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 bob mis i'r cyfarfod perfformiad isadrannol a bob chwarter i'r uned gyflawni.</p>	<p>Becky Baker - Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau ardal y Dwyrain.</p>	<p>Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd gynnal ymgynghoriadau pellach â'r staff er mwyn trafod ffyrdd o sicrhau bod yr uwch-dîm rheoli yn fwy gweladwy ac yn cyfranogi'n fwy ar y wardiau</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff yn cael sesiwn oruchwylio fisol/deufisol gyda'r rheolwr llinell. Mae cyfarfod Atebolrwydd gweithredol ardal y Dwyrain yn monitro cydymffurfiaeth bob wythnos a chyflwynir adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Busnes.</p> <p>Mae rheolwyr gwasanaethau i gleifion mewnol yn cynnal fforymau misol y gall pob aelod o staff yn yr uned cleifion mewnol</p>	<p>Becky Baker - Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau ardal y Dwyrain.</p> <p>Joanne Kendrick - Pennaeth Nyrsio ardal y Dwyrain.</p> <p>Masood Malik - Cyfarwyddwr Clinigol ardal y Dwyrain.</p>	<p>Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022</p>



		<p>fynd iddynt ac mae hyn yn cynnig cyfle i'r staff roi awgrymiadau.</p> <p>Mae rheolwyr gwasanaethau i gleifion mewnol yn ymweld â'u hardaloedd bob dydd gan ymgysylltu â'r cleifion a'r staff.</p> <p>Mae Uwch-dîm Arwain ardal y Dwyrain yn gweithredu polisi drws agored ac mae'r aelodau i'w gweld ar safle Heddfan bob dydd.</p> <p>Cynhelir fforymau misol gyda'r nos gan y Pennaeth Gweithrediadau a'r Pennaeth Nyrsio er mwyn ymgysylltu â staff sy'n gweithio gyda'r hwyr neu ar sifftiau nos.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol a'u bod yn cael cymorth i fynd i'r sesiynau hyfforddi.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Mae Uwch-dîm Arwain ardal y Dwyrain yn adolygu'r holl hyfforddiant gorfodol bob wythnos yn y cyfarfod Atebolrwydd gweithredol.</p> <p>Caiff staff gymorth i gwblhau hyfforddiant gorfodol er mwyn</p>	<p>Becky Baker - Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau ardal y Dwyrain.</p> <p>Joanne Kendrick - Pennaeth Nyrsio ardal y Dwyrain.</p>	<p>Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022</p>

		<p>cefnogi cymhwysedd y staff a meithrin eu hyder yn eu rolau.</p> <p>Mae ardal y Dwyrain wedi sicrhau a chynnal cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ers mis Mawrth 2021.</p>	<p>Masood Malik - Cyfarwyddwr Clinigol ardal y Dwyrain.</p>	
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn cael ei monitro'n rheolaidd gan uwch-reolwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Mae Uwch-dîm Arwain ardal y Dwyrain yn adolygu'r holl hyfforddiant gorfodol bob wythnos yn y cyfarfod Atebolrwydd gweithredol.</p> <p>Cyflwynir adroddiad ar gydymffurfiaeth bob mis i'r cyfarfod perfformiad isadrannol.</p>	<p>Becky Baker - Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau ardal y Dwyrain.</p> <p>Joanne Kendrick - Pennaeth Nyrsio ardal y Dwyrain.</p> <p>Masood Malik - Cyfarwyddwr Clinigol ardal y Dwyrain.</p>	<p>Cwblhawyd.</p> <p>8 Tachwedd 2022</p>
<p>Dylai'r holl hyfforddiant gorfodol gael ei gofnodi ar un system er mwyn hwyluso gwaith llywodraethu a monitro.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Mae system Cofnodion Staff Electronig ar waith ar gyfer y gweithlu er mwyn monitro a chofnodi hyfforddiant gorfodol i'r staff.</p>	<p>Becky Baker - Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau ardal y Dwyrain.</p>	<p>Cwblhawyd.</p> <p>8 Tachwedd 2022</p>

		Mae'r Is-adran yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl hyfforddiant gorfodol yn cael ei gofnodi ar y system Cofnodion Staff Electronig gan gynnwys Ymyriadau Corfforol Cyfyngol.	Arweinydd Hyfforddiant, Datblygiad a Llesiant - Isabelle Hudgell	31 Mawrth 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiau y mae eu dyddiadau adolygu wedi mynd heibio, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol - dyddiad adolygu Mawrth 2021</li> <li>Polisi ar gyfer Arferion Recriwtio a Dethol Diogel - dyddiad adolygu Mehefin 2019</li> </ul>	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol - cwblhawyd yr adolygiad o'r polisi. Disgwylir iddo gael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch Strategol ym mis Ionawr 2023.  Arferion Recriwtio a Dethol Diogel - adolygydd y polisi, mae'n mynd drwy Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.  Rheolwr Adnoddau Dynol - Llinos Jones	31 Ionawr 2023  31 Ionawr 2023
Dylai'r bwrdd iechyd ganolbwyntio ar recriwtio staff i swyddi parhaol sy'n wag ar y wardiau.	Y Gweithlu	Mae'r holl swyddi gwag yn cael eu hysbysebu ar gyfer ardal y Dwyrain ar hyn o bryd.	Becky Baker - Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau ardal y Dwyrain.	Cwblhawyd. 8 Tachwedd 2022

		Caiff hyn ei fonitro drwy'r cyfarfod Atebolwydd gweithredol drwy adroddiad eithriadau wythnosol gan Reolwyr Gwasanaethau i Gleifion Mewnol.	Joanne Kendrick - Pennaeth Nyrsio ardal y Dwyrain.	Proses barhaus.
Dylai'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau bod uwch-reolwyr yn cyfathrebu'n well â'r staff er mwyn sicrhau bod trefniadau gweithio'r staff yn cael eu rheoli'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau tryloywder ac osgoi dryswch neu ddrwgdybiaeth.	Y Gweithlu	<p>Mae pob aelod o'r staff yn cael sesiwn oruchwyllo fisol/deufisol gyda'r rheolwr llinell.</p> <p>Mae rheolwyr gwasanaethau i gleifion mewnol yn cynnal fforymau misol y gall pob aelod o staff yn yr uned cleifion mewnol fynd iddynt.</p> <p>Mae Uwch-dîm Arwain ardal y Dwyrain yn gweithredu polisi drws agored ac mae'r aelodau i'w gweld ar safle Heddfan bob dydd.</p> <p>Cynhelir fforymau misol gyda'r nos gan y Pennaeth Gweithrediadau a'r Pennaeth Nyrsio er mwyn ymgysylltu â staff sy'n gweithio gyda'r hwyr neu ar sifftiau nos.</p>	Rheolwyr wardiau.  Uwch-dîm Arwain ardal y Dwyrain.	Cwblhawyd.  8 Tachwedd 2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Paul Lumsdon**

**Teitl swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro**

**Dyddiad: 9 Ionawr 2023**